YR YMOFYNYDD.

RHIF 48.] AWST, 1851. [CYF IV.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

YR EGLWYS YN YR ANIALWCH.

DIBEN Y GWYRTHIAU A'U CYMHWYSDER, YN EU PERTHYNAS AG AMCANION Y SEFYDLIAD IUDDEWIG.

Pwy gymmer arno i ddywedyd fod gwyrthiau yn *anmhosibl*—nas *gall* Awdwr natur amrywio mewn un gradd, neu symud cyfreithiau natur? Neb ag sy'n credu yn y Bôd o Dduw a'i briodoliaethau. Nis gellir dangos ychwaith ei bod yn anghyson a doethineb Duw, iddo ef, ar brydiau neillduol, weithredu yn groes i'w gyfreithiau sefydledig. Nid un rhyw wall neu ddiffyg yn nhrefn Duw, oedd yr achos ag oedd yn gofyn gwyrthiau. Diau fod cyfreithiau sefydledig natur yn brawf o ddoethineb y Creawdwr, ac ar y cyfan yn gymmwys i atteb ei amcanion; etto ni ellir dangos nad oedd *gwyrthiau hefyd*, mewn amgylchiadau ag oeddent yn gofyn hyny, yn ran o'i drefn ddoeth ef. Ac os yr ymddengys fod gwyrthiau, mewn rhai amgylchiadau, yn atteb rhyw amcan daionus nad ellid yn gystal ei ddwyn oddiamgylch trwy weithrediadau naturiol; yna fe ymddengys ar yr un pryd, nid yn unig ei bod yn *debygol* fod Duw wedi gwneuthur gwyrthiau, ond fod ei ddoethineb hefyd a'i ddaioni yn gofyn hyny. A chan ein bod yn ystyried nad yw Duw ddim oll wedi gwneuthur gwyrthiau yn afreidiol, eithr bob amser i atteb rhyw amcan neillduol, arweinir ni yn naturiol i ymofyn am y diben neu'r amcan neillduol oedd mewn golwg, a'u cymhwysder i atteb y cyfryw amcan.

Yn awr fe ymddengys i ni mai diben y gwyrthiau mewn cwestiwn, y rhai yr ydym yn credu i Dduw eu gwneuthur yn yr amseroedd boreuol, oedd, i ddysgu rhyw wirionedd neu wirioneddau gwerthfawr i blant dynion—i amlygu iddynt ewyllys eu Creawdwr, yr hyn oeddent, oherwydd rhyw beth neu gilydd, yn analluog i'w ddysgu wrth oleuni natur yn unig—ac i ddysgu hyn *yn awdurdodol*, er peri i ddynion ei dderbyn fel gwirionedd, ac i ufuddhâu iddo. Dyma amcan teilwng o *ddaioni* Duw. A phwy all ddangos nad oedd y drefn a'r moddion yr un mor gyson a'i doethineb ef?

Mewn pob dadguddiad goruwchnaturiol, y fath mae hanes genym am danynt yn yr Ysgrythyr, yr ydym o'r farn fod gwyrthiau bob amser yn cydfyned. Pan fyddai Duw yn dadguddio ei ewyllys i ryw un, yr oedd gwyrth yn angenrheidiol; nid yn unig er gwneuthur ei ewyllys yn adnabyddus i'r cyfryw; ond hefyd er rhoddi sicrwydd i'r cyfryw mai dadguddiad dwyfol ydoedd, ac nid ffrwyth ei dychymygion ei hun. A phan y byddai y cyfryw ddyn yn cael gorchymyn i gyhoeddi y dadguddiad hyny i ddynion eraill, yr oedd yn angenrheidiol i Dduw wneuthur gwyrthiau yn gyhoeddus trwy y cyfryw gennad; fel y byddai i ddynion wrando arno a chredu ei gennadwri, a'i derbyn fel dadguddiad dwyfol ac ufyddhâu iddi. Y mae hanes anfoniad Moses yn eglurhâd o hyn. Darllener Exod. iii. 1—6; iv. 1—9.

Wrth ddarllen yr hanes canfyddir mai diben ac amcan y weledigaeth o'r "berth yn llosgi yn dân ac etto heb ei difa," a'r gwyrthiau eraill a wnaed yr un pryd i Moses ar y mynydd, oedd i'w argyhoeddi ef o wirionedd y dadguddiad yr oedd yn ei dderbyn, ac mai Awdwr natur oedd yn ei anfon, yr hwn mae pob gallu yn ei law. Yr oedd hyn yn ddigon i argyhoeddi Moses, ond nid oedd yn ddigon i argyhoeddi Pharaoh a phlant Israel fod Moses wedi ei anfon oddiwrth Dduw. Nid oedd *gair* Moses yn ddigon at hyny o beth, heb iddynt gael prawf fod ei air ef yn wirionedd. Yr hyn brawf hwy a gawsant, yn y gwyrthiau a wnaeth Duw trwy Moses yn eu gwydd hwynt—y fath ag oeddent y mwyaf cymmwys er peri i Pharaoh wrando ar Moses ac Aaron, a gollwng Israel ymaith—a'r fath ag oeddent yn effeithiol er dwyn plant Israel i ufyddhâu i Moses, ac i fyned allan dan ei arweiniad ef, fel y derbynient gyfraith oddiwrth Dduw; yr hwn oedd ar fedr eu gwaredu o'u caethiwed "â llaw uchel ac â braich estynedig."

Mewn canlyniad, plant Israel a welent yn awr ac a deimlent eu bod dan arweiniad a gofal neillduol yr Hollalluog—bod gan Dduw ryw fwriadau mawr a daionus i'w cyflawni iddynt a thrwyddynt. Y teimlad a'r argyhoeddiad hyn a ganfyddir yn torri allan yn naturiol yn ngeiriau Cân Moses, Exod. xv. 11, 13, 17. "Pwy sydd debyg i ti O Arglwydd ymhlith y Duwiau? Pwy fel tydi yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd, yn ofnadwy mewn moliant, yn gwneuthur rhyfeddodau? Arweiniaist yn dy drugaredd y bobl y rhai a waredaist; yn dy nerth y tywysaist hwynt. Ti a'u dygi hwynt i mewn ac a'u plenni hwynt yn mynydd dy etifeddiaeth, y lle a wnaethost O Arglwdd yn anneddle i ti; y cyssegr O Arglwydd a gadarnhâodd dy ddwylaw."

Ymddengys fod yr Israeliaid, yn ystod yr amser y buont yn yr Aipht, wedi anghofio llawer o'r wybodaeth am grefydd ag oedd gan eu tadau, ac wedi cyd-ymffurfio i ryw râdd âg eilun-addoliaeth yr Aiphtiaid. Yr oedd yr Aiphtiaid a'r cenhedloedd eraill yr amser hyn, yn credu mewn lluosogrwydd o dduwiau. Yr oedd gan bob gwlad ei duw, neu ei duwiau ei hunan. Ac os byddai rhyw wlad yn hynod o lwydiannus, neu yn fuddugoliaethus ar ei gelynion, eu cred oedd bod hyny oherwydd fod duwiau'r wlad honno yn gryfach nâ duwiau ei gelynion. Yn awr, fel attalfa i'r cyfeiliorni yma, a'r llygredd a'r poen cysylltedig, ac i gadw'n fyw yn y byd y wybodaeth am yr unig *Wir Ddaw*, wele drefn neillduol, tuag at deulu a phobl neillduol, yn cael ei sefydlu a'i dwyn ymlaen mewn modd tra nodedig! Rhyngodd bodd i Dduw i amlygu ei hun i Abraham fel "Arglwydd nef a daear," gan ei ddewis a'i neillduo ef, a'i hiliogaeth trwy Isaac a Jacob, i fod yn bobl briodol iddo ei hun, er dangos i'r holl genhedloedd, trwy ei oruchwyliaethau tuag at

y genedl hon, mai "Jehofah sydd Dduw, ac nad oes arall ond efe"—i ddangos hyny trwy wneuthur y genedl hon yn ddedwydd a llwyddiannus uwchlaw holl genhedloedd byd, tra y parhâu i lynu wrth addoliad a gwasanaeth y Gwir Dduw. Ac os byddai i'r bobl hyn i wrthgilio a myned ar ôl arferion eilun-addolgar yn y cenhedloedd, yna y byddai iddo ef ddwyn cospedigaeth dost arnynt, a hyny yn amlwg i'r holl bobloedd. Fe ymddengys gan hyny mai nid er mwyn cenedl Israel yn unig y sefydlwyd y grefydd Iuddewig trwy Moses; eithr bod lleshâd cenhedloedd eraill, a'r byd yn gyffredinol, mewn golwg hefyd.

Pe y gwyddem fwy am amgylchiadau'r byd ar yr amser hyny, diau y canfyddem yn well ddoethineb y drefn a chymhwysder yr offerynau. Mae yr hyn a wyddom yn ein harwain i edrych ar neillduad Israel, a'u sefydliad yn ngwlad Canaan, fel trefniad daionus tuag at attal y llifeiriant o amrhyfusedd, drygioni ac eilun-addoliaeth ag oedd yn ymdaenu dros y byd. Ac ar yr olwg hyn, fe welir fod y berthynas a ddywedir fod Duw yn ddwyn tuag at Israel, fel pobl neillduedig iddo ei hun, yn sefyll mewn gwir gysondeb a'r gwirionedd mawr—ei fod ef yn "Dduw a Thad pawb oll." Ac yr y'm ni yn meddwl yr ymddengys yr un peth oddiwrth ystyriaethau eraill, y rhai a gyfodant oddiar natur ac amcan y sefydliad Iuddewig.

Y mae yn anhawdd, os nad yn anmhosibl, penderfynu pa gymaint o'r effaeth lesiol yma, a gafodd y grefydd Iuddewig, o oes i oes, ar y cenhedloedd amgylchynol, tuag at attal rhwysg eilun-addoliaeth, a dysgu gwell gwybodaeth am Dduw. Mae'n fwy na thebyg ei fod yn helaeth iawn; a bod hyd yn oed y Philosophyddion Groegaidd, mewn rhyw fodd neu gilydd, wedi benthyca llawer oddiwrth yr Iuddewon.

Ac y mae yn dra thebygol y buasai gwybodaeth mwy perffaith nag y sydd genym am hanes yr oesoedd hyny, i ddwyn i'r amlwg y ffaith fod y grefydd Iuddewig yn hyn wedi atteb ei diben yn hynod. Ond gan nad beth am hyny—rhaid i ni yn bresenol, adael heibio tystiolaeth hanesyddiaeth gyffredinol. Y mae'n ddigon i sylwi ar y pryd hwn, fod y sefydliad Iuddewig *yn gymmwys* i ddwyn oddiamgylch yr effeithiau daionus a gyfeiriwyd attynt; ac am hyny, fod neillduad Israel i fod yn bobl briodol i Dduw, yn hollol gyson a'r gwirionedd mawr—fod Duw yn ei holl oruchwyliaethau yn golygu gwir les ei holl grëaduriaid rhesymol.

Os bydd rhyw anhawsdra etto yn aros ar feddwl y darllenydd ynghylch y peth; sef, ynghylch fod Duw, yr hwn sydd yn ddaionus i bawb, wedi neillduo un genedl i fwynhâu breintiau gwybodaeth grefyddol yn rhagor nâ chenhedloedd eraill—cofier, os oes anhawsdra yn bod, nad yw'r anhawsdra yn perthyn i'r pwngc sy dan sylw yn unig—ddim i grefydd ddadguddiedig yn unig. Y mae yr un anhawsdra yn cyfodi wrth ystyried trefn Duw yn ei lywodraeth a'i ragluniaeth gyffredinol dros y byd. Yr y'm yn gweled fod rhai teuluoedd, rhai gwledydd a chenhedlaethau wedi cael eu gosod, gan ei ragluniaeth ef, mewn amgylchiadau mwy ffafriol nag eraill, tuag at gwrteithio gwybodaeth a rhinwedd. Ac yr y'm yn rhwym o addef fod y drefn yn gyson a daioni cyffredinol Duw, er nas gallwn ganfod yn mha fodd y mae hyn, ynghyd a rhanau eraill o'r drefn ddoeth, yn cyd-weithio er dwyn oddiamgylch lles penaf ei grëaduriaid rhesymol yn gyffredinol.

Y sylw diweddaf a wnawn ar y pen hwn, ynghylch amcan y grefydd Iuddewig ydyw—Fod y "ddeddf (fel y dywaid Paul) megis ysgolfeistr i'n harwain at Grist"—fod *Iuddewaeth* yn parotoi'r byd i dderbyn Cristnogaeth.

Allan o'r genedl Iuddewig, yn nghyflawnder yr amser, y cyfododd Duw offerynau addasedig i daenu'r wybodaeth o wir grefydd yn y byd—i gyhoeddi, fod Duw yn Dad daionus o thrugarog i bawb yn ddiwahân; y bydd adgyfodiad oddiwrth y meirw a barn gyfiawn, yn mha un y derbyn pob dyn yn ôl ei weithredoedd—yn gyflawniad gogoneddus o'r addewid a wnaed i Abraham, "Mai yn ei hâd ef y bendithid holl genhedlaethau'r ddaear."

Yr oedd, o leiaf, mwy na 400 mlynedd wedi myned heibio bellach oddiar pan y rhoddwyd yr addewid i Abraham. Yr oedd ei hiliogaeth ef wedi bod yn yr Aipht dros 200 mlynedd, a mwy na hyny yn ol barn rhai dynion dysgedig. Pa fodd bynag, yn y cyfamser yr oeddent wedi lluosogi yn ddirfawr. Ond yn ystod y can mlynedd olaf, oherwydd i'r wlad ddyfod o dan lywodraethwyr newydd, yr oedd y genedl Hebreig mewn cyflwr o gaethiwed a gorthrymder tost. Nid anghofiodd Duw ei addewid i Abraham. Dyma efe yn awr wedi gwaredu Israel o gaethiwed yr Aipht, mewn modd rhyfeddol a gwyrthiol. Nid yw yr Aiphtiaid hwyach yn bygwth eu canlyn a'u gorddiwes. Y mae'r genedl oedd yn ddiweddar mewn caethiwed, yn awr mewn gwersyllfa heddychol wrth odre mynydd Sinai, yn Arabia, lle y maent i dderbyn y gyfraith oddiwrth Dduw trwy law Moses—(darllener Exod. xix.) Nid yw y llwythau a'r cenhedloedd cymydogaethol yn beiddio eu drygu, na rhwystro eu taith trwy'r anialwch, gan gymaint yr ofn a'r arswyd sydd wedi syrthio arnynt oll, wrth glywed am y gwyrthiau a'r rhyfeddodau mawrion a wnaeth Duw dros yr Israel yn yr Aipht, ac yn y mor côch. *(Pw barhau).*

DARNAU O WAITH IOLO MORGANWG.

Mr. Ymofynydd.—Dichon y bydd y darnau canlynol yn dderbyniol gan nifer fawr o'ch darllenwyr, yn enwedig yr enghraifft fywiog o briod ddull Iolo, fel ysgrifenydd. Ysgrifenodd yr hen Fardd yr "Ysbysiad" ar ddechreu llyfryn bychan, sef, "Holiadur, neu addysgiadau cyffredin, hawl ac atteb, yn athrawiaethau a *Dyledswyddau Crefydd.* Gan y Parchedig J. P. Estlin, L. L. D., Gweinidog Cynnull-eidfa Dwyfundodiaid yng Nghaer Odornant, a Gymreigiwyd o'r ail argraphiad gan Iolo Morganwg, Bardd Cymdeithas Dwyfundodiaid Deheubarth Cymru." Gan nad yw'n debygol fod y llyfryn wedi bod yn llaw ond ychydig nifer o'ch darllenwyr; rhoddais rai o'r Emynau, ac os bydd yn ddewysiol gennych, cewch y rhai ereill.

J. D.

Gwall.—Yn Ymofynydd Gorphenaf, tud. 156, y gair diweddaf o'r Emyn; yn lle 'iddo' darllener 'iddaw.'

"YSBYSIAD."

"Barnwyd y llaw-lyfr bychan hwn yn dra theilwng ei gymreigio—yn hyn gwnaethum fy ngorau; ac yn anad dim, i ochelyd y mochyneidd-dra cywilyddus a welir mor gyffredin, yn rhedeg drwy bedwar ugain a phedwar ar bymtheg a hanner, ym mhob cant o'r llyfrau cymreig a gyhoeddir yn yr oes ddiymgais honn; gwareded rhyw dynged dda ni rhag y cyfryw anferthwch galarus ar iaith a dull ymadrodd. Poed felly y bo—eithr ofni'r wyf mai nid felly y bydd, etto gyrrir fflangell ar esgyll pob awel gwynt, o ba bwngc bynnag, drwy gylch yr wybren, y chwytho, i esgydio ysgwyddau y rhai ni ymegniont er gwell.

"O'n hen Iaith berffaith, dy burffawd,—i'n oes
Sy'n isel ar waddawd,
A'i ddirnerth, cefaist ddyrnawd,
Gwael y briw, ac o law brawd.

Alban Hefin, 1814. "Iolo Morganwg, Gweinidog y Fflangell, a'i dywawd."

GORFOLEDD MEIBION DUW.

EMYN XVIII.

I'r Duw tragywydd boed gogoniant,
Fal gynt yn y dechreuad oedd;
Pan ganai sêr y wawr ei foliant,
Llawenydd nefol yn eu bloedd:
O boed y mawl a roddwn ninnau
Yn gân serchiadau o'r unrhyw;
Yn gân o eigion ein calonau;
Yn gân *gorfoledd meibion Duw.*

GWEDDI'R ARGLWYDD.

EMYN XIX.

Tad wyd ti sy'n byw'n drag'wyddol,
Y Duw trugarog sy'n y Nef;
A'th enw yn glodfawr, yn ryfeddol,
Santeiddier a bendithier ef;
Môr diderfyn bywydoldeb
Yw'th gariad sy'n ein cynnal ni:
Drwy holl drigfannau'r anfeidroldeb
Ymdanned byth dy deyrnas di.

Byth bydded oll yn ol dy wyllys
Drwy holl derfynau'r ddaear honn,
Fal mae'n y nef, pob peth yn ddilys
Yn bur ufudd-dod ger dy fronn;
Bydd ym mhob rhaid,y Duw goruchaf,
Dydd ar ol dydd i'n cynnal ni;
Doeth yw dy drefnau, doeth hyd eithaf
Goreuon dy drugaredd di.

O dôd faddeuant inni'n heddgar,
Gan ddal yn ôl dy gyfiawn wg,
Yn ol a'n gweli ni'n faddeugar
I'n holl elynion am eu drwg;
Lle'n gweli'n llwybrau profedigaeth,
Yn rhwyd bydoldeb, mawr ei frâd
Dod fodd, yn nhrefnau dy ragluniaeth,
O'r drwg i'n gwâred, nefol Dâd.

Ein Tad, ein Duw, Ior mawr y nefoedd,
Mae'th glod soniarus drwy'th holl waith;
Mae'n cerdded holl fyrddiynau'r bydoedd;
Mae'n gân yr anfeidroldeb maith,
Mae pob gogoniant itti'n addas;
Boed fel dy gariad yn ddi dawl;
Boed yn ddiderfyn itti'r Deyrnas;
Hyd fyth dragywydd itti'r mawl.

Iolo Morganwg.

DUWDOD CRIST.—Llythyr XI.

PRIODOLIAETHAU DWYFOL—HOLLALLUAWGRWYDD A HUNAN-HANFODOLRWYDD.

Mr. Ymofynydd.—Gofynwyd i mi yn ddiweddar, pa bryd yr oeddwn yn meddwl gorphen y pwngc pwysig sydd gennyf mewn llaw. Tebyg fod un o'r gofynwyr yn lled-obeithio y gwnawn ei orphen heb fod yn faith; dywedodd y llall ei fod yn gobeithio na wnawn ei orphen yn glau. Drwg gennyf ddywedyd nas gallaf yn bresenol ddywedyd pa bryd y gorphenaf; ond ar ol ei orphen, gallaf ddywedyd nad wyf ar hyn o bryd yn meddwl blino amynedd eich darllenwyr mor aml ag y gwnaethum eisioes, ac y bydd yn rhaid i mi etto i wneuthur hyd oni orphenwyf y pwngc hwn.

Diar. viii. 22, 31,—(Er mwyn byrdra, darllened y myfyriwr yr adran hon yn ei Feibl).

Yr ymresymiad Trindodaidd—"Mae Solomon, yn Diar. viii. 22, yn dwyn i mewn, nid doethineb wedi ei phersonoli, ond doethineb bersonol Duw, dan yr un berthynas o Fab—yr ail berson yn y Drindod."—*Richard Watson.*

Fy sylw gyntaf yw hyn; nad prophwydoliaeth yw y llyfr hwn, ond *casgliad* o ddiarhebion gan Solomon; ac nid yw ond ofer chwilio am brophwydoliaeth ond lle mae i'w chael, neu yn cael ei phroffesu. Yn nesaf, personoli doethineb y mae Solomon yma, beth bynnag a ddywed Watson i'r gwrthwyneb. viii. 1, 12,—"Onid yw doethineb yn *gwaeddi*, a deall yn *llefain*? Ymhen lleoedd uchel gerllaw'r ffordd, lle mae llwybrau lawer, y mae *hi*, nid efe, yn sefyll; gerllaw y porth ymhen y dref; yn ymyl y drysau y mae *hi* yn *llefain*. Arnoch chwi wŷr yr wyf fi yn *galw*, ac at feibion dynion y mae fy llais * * * Derbynwch fy nysg ac nid arian, a gwybodaeth o flaen aur etholedig; canys

gwell yw doethineb na gemmau: nid oes dim cyffelyb iddi. Myfi doethineb wyf yn trigo gyda *challineb:* yr ydwyf yn cael allan wybodaeth a chynghor." Diar. i. 1, 2, 3,—"Doethineb Solomon, fab Dafydd, brenhin Israel; i wybod doethineb ac addysg, i ddeall geiriau synwyr, i gymmeryd athrawiaeth deall." Ac yn yr adran dan sylw, y mae Solomon yn gosod allan fod Duw trwy ddoethineb wedi ffurfio'r cyfan; ei bod hi gydag ef cyn llunio dim erioed; neu ei fod ef yn ddoeth er tragywyddoldeb. Y mae yn amlwg trwy'r bennod, fod Solomon yn siarad am ddoethineb ac nid person. Ond a gadael ei fod ef yn gosod allan, mai person oedd gyda Duw cyn ei weithredoedd erioed, wedi ei enneinio er tragywyddoldeb; pwy ddywedodd mai Iesu Grist, yr ail berson sydd i'w ddeall wrthi, mwy na'r trydydd person? Yn wir os person yw'r doethineb a sonir am dani yma, y mae'n lled anhebyg mai Iesu Grist ydyw, yn ol darluniad Mathew o'r Iesu, neu yn hytrach yn ol darluniad Esaias fel ei difynir gan Mathew xii. 19,—"Nid ymryson efe, ac *ni lefain*; ac ni chlyw neb ei *lais ef* yn yr *heolydd*." Ond y mae'r doethineb sydd gan Solomon, neu berson dwyfol os mynwch, yn gwaeddi, yn llefain gerllaw'r ffordd, lle mae llwybrau lawer, ymhen y dref, yn ymyl y drysau. Felly nid Crist oedd: cyfeirio y mae Solomon at yr arferiad o ysgrifenu doeth-eiriau ar estyll, a'u gosod i fynu mewn mannau cyhoeddus; ac at yr arferiad o farnu a thrin matterion pwysig ymhyrth y ddinas. Canad beth am hyn, nid doethineb yn unig sydd yn cael ei phersonoli yn yr ysgrythyrau. Y mae *cariad* yn cael ei bersonoli yn 1 Cor. xiii; ond nid yw oherwydd hynny yn berson. Dywedir fod llygaid gan y môr, a'r mynyddoedd; ac y mae'n rhaid fod clustiau gan y nefoedd a'r ddaear, cyn y gellir dywedyd wrthynt, "*Gwrando* nefoedd, *clyw* dithau ddaear." Llefarir am allor, carreg, dwfr a gwaed, fel tystion, heb feddwl, serch hynny, eu bod yn bersonau deallus. Anerchir cleddyf fel pe bai yn cysgu—DEFFRO *gleddyf* yn erbyn fy mugail. Gosodir allan y glust, y llygad, y droed, y gyfraith, gwaed y taenelliad yr hwn sy'n *dywedyd* pethau gwell na'r eiddo Abel, ïe, gosodir dyddiau a blynyddoedd hefyd gyda hwynt, fel llefarwyr.—Dystryw a marwolaeth, fel wedi clywed a'u clustiau;—dywedir fod yr haul y *llawenhau* fel cawr i redeg gyrfa—dyfnder yn *galw* ar ddyfnder wrth swn dy bystilloedd di—fod y mynyddoedd yn *gweled* ac yn *crynu* (Hab. iii. 10)—fod y llifeirant dwfr yn cyfodi ei *ddwylaw* yn uchel—y mynyddoedd yn *neidio* fel meherin, a'r bryniau fel wŷn defaid—doethineb yn gwaeddi—calon a chnawd prophwyd yn gwaeddi am y Duw byw. Ac oni ddywedir yn ein plith ni fod y *marw*, chwaethach hynny, yn *galw* am y pridd? A ydyw yr holl bethau hyn yn bersonau i gyd? O, nag ynt yn wir, ac nid yw doethineb chwaith, serch ei bod hi yn gwaeddi, wedi cael ei henneinio er tragwyddoldeb, &c.

Dywed *Adam Clarke*—"Yma etto y mae doethineb yn cael ei phersonoli, ond y mae'r ffigwr yn cael ei chario ymhellach nag o'r blaen. 1. Doethineb, y gallu i farnu'n iawn—2. Fel priodoledd o Dduw yn cael ei gosod allan yngwahanol weithredoedd mawrion nattur. Ac nid oes iddi un meddwl *arall*, yn yr holl bennod, beth bynnag y mae rhai o'r tadau wedi freuddwydio." Felly, *Le Clerc*, *Pye Smith*, a lluoedd eraill o'r Trindodiaid dysgedig.

Micah v. 2,—"A thithau Bethlehem Ephratah, er dy fod yn fechan ym mhlith miloedd Judah, etto o honot ti y daw allan i mi un i fod yn llywydd yn Israel; yr hwn yr oedd ei fynediad allan o'r *dechreuad*, er dyddiau tragwyddoldeb." Cydmarer â Matt. ii. 6.

"Yr ydym," medd *Pye Smith*, "yn cael fod dechreuad llëol ac amserol yn cael ei briodoli iddo; ac yn yr un adnod haeriad mor eglur a hynny o fodolaeth flaenorol a thragywyddol."

Dywedir am yr hwn oedd a'i fynediad o'r dechreuad, er dyddiau tragwyddoldeb, fod Duw yn Dduw iddo, a'i fod yn sefyll ac yn porthi a nerth yr Arglwydd; (adn. 4.)—"Ac efe a saif ac a borthø a nerth yr Arglwydd, yn ardderchawgrwydd enw yr Arglwydd ei Dduw. Iē, dywed *Pye Smith* ei hun, fod dechreuad llëol ac amserol yn cael ei osod allan yn yr adnod ei hun, yr hyn sydd yn llwyr groes i *dragwyddol genhedliad*, ac a ddylasai attal dynion dysgedig o'i fath ef i fabwysiadu y fath ffolineb. Oblegid gan fod y mynediad allan yma yn cael ei arfer am un ymddibynol, amserol, a llëol, rhaid fod y geiriau, "er dyddiau tragwyddoldeb" i'w cymmeryd, fel amryw ranau eraill o'r ysgrythyr, mewn ystyr gyfyngedig; megis Gen. xvii. 8.—"A mi a roddaf i ti, ac i'th hâd ar dy ôl di, wlad dy ymdaith, sef holl wlad Canaan, yn etifeddiaeth *dragywyddol*. Deut. xxxii 7,—"Ystyriwch y dyddiau gynt, *zekór iemóth holam*, cofiwch ddyddiau *tragwyddoldeb*." Yn wir, y mae *holam*, tragwyddol, yn air a arferir mewn nifer o fanau, a gwahanol ystyriaethau, fel na ellir casglu ddim oddiwrth y gair yn unig, heb gael rhyw beth arall i'n cyfarwyddo i weled ei barhad. Felly, os at y Messiah y mae'r geiriau "er dyddiau tragwyddoldeb" yn cyfeirio, ac nid Zorobbabel; nid gwir fod y Messiah wedi myned allan, yn llythyrenol felly, er dyddiau tragwyddoldeb, mwy na phan y dywedir ei fod yn oen a laddwyd er cyn seiliad y byd, yn dangos ei fod wedi ei ladd cyn iddo gael ei eni; y meddwl yw, ei fod ef wedi ei *appwyntio* ym mwriadau ei Dad, i ddyfod a chael ei ladd, er tragwyddoldeb, ac nid o ran ei fod *wedi* dyfod ac *wedi* cael ei ladd er tragwyddoldeb,

"Y daw allan," medd *Grotius*, hynny yw—Efe a gaiff ei eni, oblegid felly y mae *itsa* yn cael ei arfer yn Gen. xvii. 6; xxv. 25; Isa. xi. 1—Yna y daw allan wialen o gyff Jesse. Dywedir gyda chywirdeb fod Zorobbabel wedi dyfod allan o Bethlehem, oherwydd ei fod o deulu Dafydd, yr hwn a gafodd ei ddechreuad yn Bethlehem. Dywed *Julius Bate* fod *itsa* yn cael ei arfer am enedigaeth dyn ac anifail, tarddiad llysiau, dwfr, a geiriau. Dywed *Gesenius* fod yr amser *pan* y mae'r person neu'r peth yn myned allan yn cael ei osod yn *regimen* a'r *participle* o'i flaen; ond nid felly yma, *min*, allan o, yw'r geiriau; *mwotsathio mikeddem mime holam*, ei fynediad allan o'r dechreuad, o ddyddiau tragwyddoldeb; neu a dodi'r cyfan mewn un ymadrodd; ei fynediad allan o'r dyddiau gynt; felly y cyfleithir y cyffelyb frawddeg mewn amrywiol fanau. Dywed *Lowth* fod dyfod allan yn arwyddo yr un peth a chael ei eni. *Samuel Clarke*—"Y daw allan i mi, trwy fy appwyntiad, ac i wneuthur y gwaith mawr yr wyf yn ei anfon ef o'i blegid. *Calvin*—"Y mae rhai esbonwyr yn dangos cyfrwysder dieithr, pan y dywedant fod y Prophwyd yn arfer y rhif luosog, *mynediadau* allan, oherwydd nattur ddwyblyg Crist; ond y mae hyn yn cynnwys gwrthuni, oherwydd nis gallasai y Prophwyd, gydag un priodoldeb na rheswm, gyssylltu'r nattur ddynol a'r ddwyfol a'u gilydd mewn perthynas a thragwyddoldeb.

IOAN i. 1.—"YN Y DECHREUAD YR OEDD Y GAIR."

Y mae rhai yn casglu tragwyddoldeb yr ail berson oddiwrth y gair dechreuad, yn yr adnod hon; ond gan ein bod eisioes wedi sylwi yn helaeth, ar yr adnod yma, digon yw dywedyd yn bresenol, nas gall *dechreuad* arwyddocau peth *di-ddechreu* heb y gwrthuni mwyaf.

"Nis gallaf," medd *Prof. Stuart*, "gofleidio meddwl y beirniaid hynny, sydd yn meddwl fod yr ymadrodd EN ARCHE, yn y dechreuad, o hono ei hun yn arwyddo tragwyddoldeb. Er fy mod yn credu fod y *logos* yn bodoli er tragwyddoldeb, er hynny, nis gallaf weled ei fod yn cael ei brofi yn uniongyrch gan yr ymadrodd." *Principal Hill*—"Nid yw'r ymadrodd *en arche*, yn y dechreuad, yn nodi pa amser y cafodd y Mab ei ddwyn allan, hynny yw, ei genhedlu; p'un ai yn union cyn y greadigaeth, neu er tragwyddoldeb."

Ioan viii. 56, 58,—"Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham, *weled fy nydd* i, ac efe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychodd. Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho—Nid wyt ti ddeng mlynedd a deugain etto, ac a welaist ti *Abraham?* Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, yn wir, yn wir, meddaf i chwi, *cyn bod Abraham yr wyf fi.*"

Yr Argument Drindodaidd—"Pe na fuasai ein Harglwydd yn meddwl rhagor na dywedyd ei fod o flaen Abraham, paham y mae ef yn dywedyd, yr *wyf* fi, yn lle yr *oeddwn* i, yr hwn yw enw neilluol ac adnabyddus y Jehofah, ac yn arwyddo nid yn unig ei raghanfodiad o flaen Abraham, ond ei hanfod dragwyddol ac anghyfnewidiol."—*Sherlock.*

Oddiwrth y tebygolrwydd sydd rhwng y geiriau "Yr wyf fi" a'r hyn a ddywedodd Duw wrth Moses, (Ex. iii. 14) "Fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel, YDWYF, a'm hanfonodd attoch, y cesglir mai Jehofah oedd Crist, enw sy'n arwyddo hanfod dragwyddol ac annibynol, Ond ni wna'r tro i ddal ar swn wrth chwilio am y gwir: ac ar swn yn unig y mae'r *argument* hon yn ymddibynu. *Ego eimi*, yr wyf fi, sydd gan Grist; ond yn y *Septuagint, ego eimi ho ón* yw'r Groeg am YDWYF, yn Exod. iii. 14; hynny yw, "*Ydwyf yr hwn sydd.*" Y mae digon o wahaniaeth rhwng y ddau ymadrodd. Yr wyf yn sylwi ymhellach etto, fod yr un dull ymadrodd yn cael ei arfer gan y dyn dall, golwg yr hwn darfu i'r Iesu ei hadferu; "Onid hwn yw yr un oedd yn eistedd ac yn cardotta * * * Ynteu a ddywedodd, Myfi yw, *ego eimi*, yr un geiriau yn gymmwys a arferodd Crist. A oedd hwn hefyd yn Dduw, annibynol a diddechreu? Etto, os yr un ystyr yw'r geiriau "Yr wyf fi" a'r gair Jehofah (ydwyf), yna mae'n amlwg mai Abraham, os neb, oedd y Jehofah yma. Ymddengys hyn yn union, os gosodwn y gair Jehofah yn lle yr "wyf fi," fel y canlyn—"Cyn bod Abraham Jehofah neu yn Jehofah!" I'r fath wrthuni y mae meddyliau rhai yn eu harwain! Gallwn sylwi ymhellach etto, Os oedd Iesu yn cymmwyso iddo ei hun enw anghyfranogol Duw, sef Jehofah, ei fod yn groes i'r hanes mewn amser; yr ydym yn cael na ddarfu i Dduw gymmwyso yr enw Jehofah iddo ei *hun*, cyn bod Abraham; nac *yn amser* Abraham chwaith; (Ex. vi. 2, 3), Duw hefyd a lefarodd wrth Moses, ac a ddywedodd wrtho, Myfi yw Jehofah. A mi a ymddangosais i Abraham, i Isaac, ac i Jacob, dan enw *Duw Hollalluog* (gwel Gen. xvii 1), ond erbyn fy enw *Jehofah ni bûm* adnabyddus iddynt *hwy*. Yn awr, os ymhell ar ol Abraham, y darfu i Dduw ddyfod yn adnabyddus wrth yr enw hwn, sef tua 460 mlynedd, a allasai Crist briodoli yr enw Jehofah iddo ei hun cyn i Dduw ei hun wneuthur hynny? Y mae'r anhawsdra yn fwy etto pan yr ystyriwn fod llawer yn haeru mai Crist oedd y Jehofah a ymddangosodd i Moses ac a siaradai ag ef, &c. Os felly, gan fod y Jehofah a siaradai a Moses, yn dywedyd yn bendant, "Ond erbyn fy enw Jehofah ni *bûm* adnabyddus iddynt hwy;" yr oedd Iesu yn Jehofah cyn ei fod ef yn Jehofah, yr hyn sydd wrthuni amlwg. Etto, pe buasai

Crist yn amcanu profi ei dragwyddoldeb, ni fuasai fyth yn dywedyd, "Cyn bod *Abraham* yr wyf fi," yr hwn oedd ond megis doe i'w gydmaru a thragwyddoldeb. Buasai yn well iddo ddywedyd ei fod cyn Cain ac Abel, cyn Adda yn well byth, a chyn creu'r byd yn well na hynny; er y buasai hyd yn oed hyn yn fyrr iawn o brofi tragwyddoldeb.

Y meddwl yw, naill ai, cyn bod Abraham myfi yw *efe*, sef y Messiah, fel y cyfieithir *ego eimi* mewn amrywiol o fannau yn y Testament Newydd, a dwy waith yn y bennod dan sylw, (adn. 24, 28), myfi yw efe, sef y Crist oedd ar ddyfod; fel y dywed Petr i. 20,—"Yr hwn yn wir a *ragordeiniwyd* cyn sylfaenu'r byd, eithr a eglurwyd yn yr amseroedd diweddar er eich mwyn chwi—neu y meddwl yw hwn, cyn y byddai Abram yn Abraham, yn dad cenhedloedd lawer, yr wyf fi, y Messiah, wedi dyfod i'w wneuthur ef felly. Y mae'r ymadrodd Groeg, *prin Abraam genesthai*, yn caniattau hyn, ac yn wir nid wyf yn meddwl y gall ef ganiattau dim arall. Y mae'r *prin* o flaen berf yn yr *infinitive mood*, ymron bob amser yn arwyddo amser dyfodol *(future tense)*. Ac yn yr unig fan y caf yr ymadrodd llawn *prin* genesthai, dyna yw ei ystyr a'i gyfieithiad hefyd; (Ioan xiv. 29,)—"Ac yr awr hon y dywedais i chwi *cyn ei ddyfod, prin genesthai*," yr un ymadrodd yn gymmwys, fel y mae *prin genesthai* wedi ei gyfieithu i'r *Syriac* yn y ddau fan; y mae'r ferf yn y *future tense* yn y ddau; *dehaddlo nehve abrohom eno ithai*, cyn y byddo Abraham yr wyf fi; y *future nehve* sydd yn yr adnod arall hefyd. Ond yn wir, a chymmeryd y cyfieithad presenol y mae'n hawdd esbonio'r ymadrodd, cyn bod Abraham yr wyf fi. Y mae Duw, medd Paul, pan yn siarad am Abraham yn dad y ffyddlonaid, yn galw y pethau nid ydynt fel pe byddent," Rhuf. iv. 17. Ac felly y mae yn fynych. Yr ydym yn darllen am yr oen a laddwyd cyn dechreuad y byd (Deut. xiii. 8). —Fod y prophwyd Jeremias wedi ei neillduo neu ei sancteiddio cyn ei eni; (Jer. i. 5,)—"Cyn i mi dy lunio di yn y groth, mi a'th adnabum; a chyn dy ddyfod o'r groth y *sancteiddiais* di, a mi a'th roddais yn brophwyd i'r cenhedloedd;"—Fod y Cristnogion wedi eu hachub a'u dewis cyn sylfaenu'r byd; (2 Tim i. 9,)—"Yr hwn a'n *hachubodd* ni, ac a'n *galwodd* ni a galwedigaeth sanctaidd, nid yn ol ein *gweithredoedd* ni, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i *ras*, yr *hwn* a *roddwyd* i ni yng Nghrist Iesu cyn dechreu'r byd." Dyma neidio dros ben yr hen Abraham, ddigon, onide? Etto, Eph. i. 4, 5,—"Megys yr *etholodd efe ni ynddo ef cyn seiliad y byd*." Dyma etto yrru heibio i Abraham, ïe, Adda ac Efa hefyd, yn ddigon pell. Rhyw eiriau rhyfedd o gryf fuasai y rhain i brofi rhaghanfod neu dragwyddoldeb Crist, oni bai'r gair bach *ni* yna sydd yn rhwym wrth yr Iesu, ac yn ei ganlyn i ble bynnag yr elo. Mae Iesu cyn seiliad y byd, ond yr ydym *ni*, medd yr Apostol, hefyd cyn seiliad y byd, wedi ein hethol a derbyn gras. Ond, ymha ystyr? Oh! nid oes ond un ystyr bid sicr, sef, yw hyn—Ym mwriadau Duw, yr oedd y cyfan yn bodoli ac yn cymmeryd lle gyda'r sicrwydd mwyaf.

"Yr oedd yr Iesu cyn bod Abraham, yn y bwriad dwyfol," medd *Grotius*. "Er nad wyf yn tybied," medd *Beza*, "fod Crist yma yn llefaru am dano ei hun, yn unig fel Duw, ond fel y cafodd ei weled gan Abraham, â *llygaid ffydd*, hynny yw, fel Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, neu Duw a ymddangosodd yn y cnawd." "Yr wyf yn addef," medd *Michaelis*, "oddieithr i bwys neillduol gael ei osod ar yr ymadrodd—'yr wyf fi;' ac iddo gael ei gymmeryd yn yr un ystyr a'r Hebraeg *ani ewa*, er ei fod yn profi rhag-

hanfod Crist, nid yw yn profi ei hanfod dragywyddol." Y mae *Carlile* yn rhoddi y prawf dros Dduwdod Crist, a dyner oddiwrth yr ymadrodd dan sylw, i fynu mewn anobaith. Dywed *Pye Smith*, fel yma—"Y mae rhai yn tybied fod ein Harglwydd, wrth ddefnyddio'r ymadrodd—'Yr wyf fi"—yn bwriadu cyfeirio at y teitl dwyfol a ddatganwyd i Moses—'Ydwyf yr hwn ydwyf.' Ond, dylid sylwi, fod geiriau y rhan honno yn yr amser i ddyfod. Byddaf yr hwn a fyddaf, Ex. iii. 14. Ac yn fwyaf tebygol, na fwriadwyd ef fel enw, ond fel datganiad o gyflawniad sicr holl addewidion Duw, yn neillduol y cyfryw a berthynent i waredigaeth yr Israeliaid. Nid oes gan hynny ddim sail ddigonol i'r dyb fod cyfeiriad at hyn."

Ioan xvii. 5.—"Ac yr awr hon o Dad gogonedda di fyfi gyda thi dy hun, a'r gogoniant oedd i mi gyda thi *cyn bod y byd*."

Yr *Argument Drindodaidd*—"Y mae tragywyddoldeb yn cael ei briodoli yma i'r Mab."—*Prof. Stuart.*

Mae'n chwythyg, yn wrthun i feddwl, fel y mae'n rhaid meddwl ar y dyb gyffredin, fod yr ail berson yn gweddio ar y person cyntaf am gael ganddo yr hyn oedd yn ei feddiant ef erioed, ac ar y pryd hynny hefyd! Ië, meddir, fel dyn yr oedd ef yn gweddio—fel dyn hefyd yr oedd gogoniant iddo gyda'r Tad cyn bod y byd; oblegid y person sydd yn gweddio am gael y gogoniant yw yr hwn sydd yn dywedyd hefyd fod y gogoniant hwnnw iddo ef gyda'r Tad cyn bod y byd. Nid oes dim newid personau yn yr adnod i gael. Y mae'r amser i roddi, a'r gwaith am yr hwn y rhoddid y gogoniant hwn, yn amlwg. Ar ol gorphen gwaith y weinidogaeth a dioddef drosti. (Ioan xvii. 4, 5.) "Mi a'th *ogoneddais* ar y ddaear, mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur; ac yr awr hon, O, Dad," &c. Luc xxiv. 25, —"Onid oedd raid i Grist ddioddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant;" dioddef yn gyntaf, myned i ogoniant wedi'n. 1 Pedr i. 11,—"Gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser yr oedd Yspryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn eu hysbysu pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dioddefaint Crist a'r gogoniant *ar ol hynny*. Felly nid oedd, ac nis gallasai'r gogoniant hwn fod ym meddiant Crist cyn dioddef o hono.

Yr wyf yn sylwi yn nesaf fod y gogoniant hwn wedi ei roddi i'w ddisgyblion beth bynnag oedd; hynny yw, wedi ei fwriadu iddynt. Ioan xvii. 22—"A'r gogoniant a *roddaist* i mi a roddaist iddynt hwy." Nid oedd bryd hynny *wedi* ei roddi iddynt hwy mwy nag iddo ynteu, onide ni fuasai achos gweddio am dano. Felly yr oedd gogoniant Crist ym mwriad Duw cyn bod y byd. Act. xv. 18,—"Hyspys i Dduw ei weithredoedd oll erioed." Felly dywedir yn 2 Tim. i. 9, a Eph. i. 4, ein bod ni wedi ein hachub, ein galw a derbyn gras er seiliad y byd, fel y sylwais yn barod. Ymddengys mai mewn addewid yr oedd y gogoniant hwn, etto, oddiwrth ei nattur, neu'r darluniad a gawn beth ydoedd; sef, llwyddiant y gwirionedd mewn canlyniad i adgyfodiad Crist a thywalltiad yr Ysbryd Glân. Ioan xii. 23, 24, —"A'r Iesu a attebodd iddynt, daeth yr awr y *gogoneddir* Mab y dyn; yn wir, yn wir, meddaf i chwi, oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear, a marw, hwnnw a erys yn unig, eithr os bydd efe *marw*, efe a ddwg *ffrwyth lawer*." Wrth edrych ar agosrwydd awr angeu, y mae'r Iesu yn teimlo; a phwy na theimla? Y mae'r Iesu yn gweddio, Ioan xii. 27, 28,—"Yr awr hon y cynhyrfwyd fy enaid, a pha beth a ddywedaf? O, Dad, gwared fi allan o'r awr hon! Eithr o herwydd hyn y daethum i'r awr hon." O herwydd peth? I hyn i'm ganed fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd; yna y mae'n

ychwanegu—"O, Dad, gogonedda dy enw." Hynny yw, yr wyf yn barod i farw er mwyn llwyddiant dy wirionedd di, gan fod hynny yn angenrheidiol. "Yna y daeth llef o'r Nef, Mi a'i gogoneddais, ac a'i gogoneddaf drachefn." Hynny yw, yr wyf wedi rhoddi i ti eisioes flaen-brawf o'th ogoniant, yn y llwyddiant oedd yn cydfyned a'th wyrthiau a'th bregethau di; ond mi a'th anrhydeddaf etto ymhellach trwy dy gyfodi o feirw a pheri i'r gwirionedd i lwyddo.

Y mae yn anheilwng o'r Iesu i ddywedyd ei fod yn gweddio am ei les ei hun yn yr awr olaf, ag yntau wedi treulio ei fywyd gwerthfawr er lles eraill yn hollol. Ni wnaeth nemawr o wyrthiau er ei fwyn ei hun erioed, ond y cwbl er mwyn eraill. Yr un amcan oedd gan Iesu wrth ddechreu a diweddu ei daith werthfawr, sef, llwyddiant y gwirionedd a dedwyddwch dyn mewn canlyniad i hynny—"Fel y credai y byd mai Tydi am hanfonaist i."

"Gan mai gogoniant dyndod Crist, medd *Le Clerc*, a sonir am dano yma, ac nid ei nattur ddwyfol, yr hon ni all na cholli na chael gogoniant yn y nefoedd, diamau fod ein Harglwydd yn bwriadu llefaru am fwriad Duw, cyn creadigaeth y byd, i'w gyfodi ef ryw ddydd i ogoniant." *Rosenmuller*—"Mae hyn yn cael ei ddeall yn gyffredin am y gogoniant oedd gan Grist yn ol ei nattur ddwyfol, cyn seiliad y byd. Ond ymddengys, modd bynnag, fod y gogoniant yr hwn a roddodd Duw i Grist, yr un peth yn ol geiriau Crist ei hun (adn. 22), a'r gogoniant a roddodd ef i'w gyfeillion. Meddwl y mae, y *byddai* i gael hynny, er nad oedd etto wedi ei roddi'n briodol, ond ei addaw a'i fwriadu; yn yr un ystyr, mae Ioan yn arfer yr un ferf yn ei lythyr cyntaf, 5. 11; 'A hon yw'r dystiolaeth, roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol;' ac y mae Crist (Mat. 25, 34) yn dywedyd fod y deyrnas *wedi* ei pharotoi i'w ddisgyblion *cyn* seiliad y byd. Yma, gan hynny, y mae'n ymddangos fod Crist yn meddwl y gogoniant oedd wedi ei fwriadu iddo cyn bod y byd."

Dywed *Esgob Parker*—"Yr wyf yn meddwl fod ystyr *Grotius* yn esmwyth a natturiol, sef, nad oedd y gogoniant oedd iddo gyda'r Tad, ddim ond ym mwriad yr arfaeth ddwyfol yn unig; megis 1 Petr i. 20; Dat. xiii. 8, lle y dywedir ei fod yn "Oen a laddwyd er seiliad y byd;" nid am ei fod wedi ei ladd mewn gwirionedd, ond oblegid ei fod bryd hynny, wedi ei nodi allan yn yr arfaeth ddwyfol i fod yn aberth dros ddynolryw. Yr oedd yn ddiareb ymhlith yr Iuddewon, i osod allan fatterion o bwys mawr, fyddent wedi eu penderfynu yn yr arfaeth ddwyfol, fel pe buasent yn bod yn wirioneddol. Fel hyn y maent yn dywedyd fod y Messias yn hun na'r haul, a'r gyfraith Foesenaidd yn henach na'r byd; nid am eu bod yn meddwl eu bod felly mewn gwirionedd, ond i osod allan eu defnyddoldeb a'u hangen hollol. Yn awr nid yw yr Ysgrythyr i'w dehongli mewn ystyr hollol lythrenol, ond mewn dull cynefin, addas i'r dull o siarad a arferid yn yr oes a'r lle yr ysgrifenwyd hwynt. Gan fod hwn yn ddull cyffredin o ymadroddi, i osod allan ddefnyddioldeb rhyw beth yn bod yn unig mewn arfaeth, fel pe buasai wedi bod mewn bodoliaeth, cyhyd ag y bu mewn bwriad; y gogoniant y mae ein Hiachawdwr yn weddio am dano, a'r hwn oedd iddo cyn bod y byd, oedd yr anrhydedd hwnnw a'r hwn yr oedd Duw yn bwriadu er tragywyddoldeb i urddasu y Messias, ac nid ei ddisgleirdeb hanfodol ei hun.

Y mae sylw *N. Cappe* o gymmaint pwys fel nas gallaf lai na'i roddi mewn rhan.—"Y gogoniant oedd Crist yn geisio gan ei Dad, ac a addawodd i'w ddisgyblion, oedd y gallu i daenu gwybodaeth o Dduw, ac o hono ei hun

yn y byd, a sierhau athrawiaeth y bywyd tragywyddol trwy anfoniad yr Yspryd Glân i waered o'r nefoedd. Trwy hwn, sef, yr Yspryd Glân, yn ol iaith y Testament Newydd, y daeth Crist i'r eglwys, fel ei deml; ac a'i llanwodd a'i ogoniant ac a drigodd ynddi. Trwy y gwyrthiau a wnaeth Crist, tra ar y ddaear, ar y dangosodd ef ei ogoniant; ond nid oedd hyn ond dechreuad ei ogoniant ef; ei gyflawniad a eglurwyd yn nhywalitiad yr Yspryd Glân, trwy yr hwn yr oedd Crist i gael ei ogoneddu; (Ioan vii. 39,) —"Canys etto nid oedd yr *Ysbryd Glân wedi ei roddi*, canys ni *ogoneddasid* yr Iesu etto." Ioan xvi. 14,—"Efe a'm gogonedda i, canys efe a gymmer o'r eiddof ac a'i mynega i chwi." Ioan xii. 16,—"Y pethau hyn ni wybu ei ddisgyblion, eithr pan *ogoneddwyd* yr Iesu" (hyny yw, pan ddaeth yr Yspryd Glân, yr hwn oedd i ddysgu iddynt bob peth, a dwyn ar gof iddynt yr holl bethau a ddywedodd wrthynt), "yna y cofiasant fod y pethau hyn yn ysgrifenedig am dano" * * *. Act. iii. 12, 13, * * * "Beth a wnewch chwi yn dal sylw arnom ni, fel pe trwy ein nerth ein hunain, neu ein duwioldeb y gwnaethom i hwn rodio * * * Duw Abraham, ac Isaac, a Jacob, Duw ein tadau ni a *ogoneddodd* ei Fab Iesu."

O. Evans.

PA UN AI *N* NEU *M*, &c., DDYLID YSGRIFENU O FLAEN *M*, &c.

Mr. Ymofynydd,—Er bod yn agos pawb o'ch derbynwyr yn diystyrru y ddadl hon, yr ydwyf yn ostyngedig yn gofyn caniatad i ddywedyd gair neu ddau ym mhellach am yr arferiad barbaraidd o ysgrifenu *yn mlaen, yn Nghaer*, &c., yn lle dilyn rheol hanfodol i bob iaith, a throedio yn ol traed y dynion godidoccaf a welodd Cymru.

Yr ydoedd iaith cyn bod ysgrifenu; ac i roddi iaith ar bapyr y ffurfiwyd llythyrenneu. Ar y cyntaf nid oeddent o angenrheidrwydd ond ammherfeith iawn, fel pob cangen o gelfyddyd yn ei mhebyd. Mae y llythyrennau a arferir yn awr yn y Beibl Cymraeg yn dynodi yn bur dda swn yr iaith, er o bossibl y gellir diwygio rhai pethau. Mae tri gwahanol swn i'r rhagosodiad *(preposition)*, yn y gwahanol setyllfaodd hyn, yn ol arfer pawb o lefaru, *ym* mebyd, *yn* ieuengetid, *yng* nghanol oedran. Amcan ysgrifennu yw dodi i lawr nodau i'n cynnorthwyo i ddywedyd pob swn yn groëw; ond cyn y gellir gwneuthur hyn, rhaid arferu *yn*, *ym*, ac *yng*.

Er mwyn gochelyd safnrythni (*hiatus*) yr arferir *yr* yn lle *y* o flaen llafariaid; fel hyn, *y* doeth, *yr* annoeth. Os na ddylid ysgrifennu *yn*, *ym*, a'r *yng*, ni ddylid ychwaith arferu *yr* ond *y* yn unig, a dywedyd *y* angel, *y* udgorn. "A ydyw" *y* "yn newid i" *yr* "yn ol rheolau iaith? Os ydyw, rhodder engraifft o'r cyfnewidiad, ond yn yr arferiad afreolaidd o roddi" *yr* "yn lle" *y* "o flaen" llafariad.

Yr ydwyf wedi dywedyd o'r dechreu, fod llythyrennau yn newid o un i'r llall, er mwyn rhwydd swn, megis llawn, *cyf*lawn, nid *cyd*lawn; llwydd, *af*lwydd, nid *an*llwydd; rhaid, *af*raid, nid *an*rhaid; glân, *af*lân, nid anlân. Os ydyw *n* yn myned yn *f* yn y geiriau hyn, wrth ba synwyr y gwaraf'ynir iddi fyned yn *m* neu *ng*?

Y rheswm (nid "y dylem aros"), ond ein bod yn *gorfod* aros rhwng *n*, ac *m*, yn y geiriau "*yn* mlaen, &c.," ydyw ein bod ym methu eu darllen yn

ddiarosiad. Pe buasai Dr. Davies, Iolo Morganwg, a'r Parchedigion Walter Davies, A. M., Daniel Evans, A. M., Dafydd Dafis, Castellhowell, &c., wedi arferu ysgrifennu *pem* mawr, buaswn yn union yn dilyn eu hôl, ond gan nad oes neb wedi gwneuthur hynny, nid iawn i ni i dorri ar bob arferiad. Eglur ydyw, nad oes y fath eiriau i'w cael, a *pem*, * *trwym*, plen*tym*, *dym*; ond ynfyd ydyw y dyn, a haera nad oes y fath eirian ag *ym*, ac *yng*. Un peth ydyw ein bod dan angenrheidrwydd i ollwng swn *y* rhwng pen a mawr, am nad oes y fath air a phe*m*; peth arall ydyw gwneuthur felly rhwng *yn* a mlaen, tra y gallwn yn hawdd beidio wrth dilyn yr hen arferiad clodwiw a welir yng ngwaith dysceidigion pennaf Cymru.

Rhyfedd y camsynied a wnaethym wrth feddwl fod Mr. Edmunds wedi transcrifio yr hyn a ddywedodd ar ysgrifeniad, a tharddiad geirian, allan o lyfrau *argraphedig* Dr. Owen Pugh a'i ganlynwyr, er mwyn "rhoddi gwerth ar y byd!" Mae yn debyg mai dywedyd ei farn yr oedd y gwr, wrth haeru mai "pwyd" ydyw gwreiddyn "prophwyd", ac nid y ddau air Groeg, *pro* a *phemi*. Dywedyd ei barn yr ydoedd yr hên wraig, wrth esbonio dydd Sadwrn fel hyn:—Dwrn, sa' y dwrn, hynny ydyw, y ddydd, ar ddiwedd yr hwn y mae y dwrn yn sefyll, ac yn gorphwys oddiwrth ei holl lafur, i gael cadw yn sanctaidd y dydd Sabboth.

Ddarllenydd, nid ydwyf yn bwriadu blino dy amynedd, ond hynny, trwy gymmeryd un sylw o "farn" Mr. Edmunds. Mae barn Dr. Pugh yn rhy galed i'w un ef.

Ydwyf, &c.,
J. Jones, Aberdâr.

TWM IFAN PRYS.

Mae enw gwrthddrych yr hanesyn canlynol yn bur adnabyddus drwy fro Morganwg. Llawer o'r rhag-ddywediadau a briodolir iddo ef, a briodolir yn Sir Gaer i Merddin. Cyfeirio yr wyf at y Gân boblogaidd a glywir ei chanu mor aml mewn ffeiriau a marchnadoedd dan yr enw "Proffwydoliaeth Merddin." Ymddengys oddiwrth y Triban, i Twm Ifan Prys gael ei eni yn y flwyddyn 1474, ac ei fod yn 11eg oed pan ennillodd Harri'r vii. goron Lloegr a'r faes Bosworth, trwy help Syr Rhys ap Thomas a'r Cymry. Gwelodd gyfnewidiadau mawrion mewn gwlad ac eglwys. Ac yr oedd yn fyw yn y flwyddyn 1604, sef ar ddechreu teyrnasiad Iago y cyntaf. Ond yr oedd bryd hynny yn hen iawn—yn "gant a deg ar hugain." Yr hanesyn a dynnwyd allan o *Iolo MSS.*

RHYS BRYDYDD.

Rhys Brydydd o Lanharran oedd yn byw yn y ty ym Mlaen Cynllan.

Dau fab oedd i Rys Brydydd, un Rhisiart ap Rhys Brydydd, a hwnnw yn Brydydd, ag efe oedd Athraw Iorwerth Fynglwyd, ag yn byw yn y Merthyr Mawr, ai fab ef oedd Rhys ab Rhisiart Brydydd o'r Wig.

---

* "Dywed y Bardd fel hyn," meddai Mr. Edmunds—

"I'm perchen mae mab parchus."

Yna y mae yn gofyn gyda thôn fuddugoliaethus, "A dylid ysgrifenu perche*m*, yn lle perche*n*? Na ddylid, o herwydd y tri rheswn hyn. (1) Yma y mae prif orphwysfa y gynganedd. (2) Mae *y* i'w deall rhyngddynt fel hyn:—I'm perchen *y* mae mab parchus. Er fod y llinell o saith sill, mae'r Grammadeg yn gofyn wyth. (3) Nid oes y fath air i'w gael, a pherche*m*.

Ail fab i Rys Brydydd oedd Ieuan ap Rhys Brydydd, ag ym Margam ydd oedd ef yn byw. efe a fu yno yn fynach, ond achaws ei gyfrif yn anffyddlon efe a droed i maes o'r Fonachlog, Ag a fu yno wedi hynny yn Dal tir ag yn briod ag iddaw blant a gorfu arno efe ai blant fyned oddyno achaws Syr Mathew Caradog o Abertawy, efe aeth i Ferthyr Cynon ym Mrycheiniog lle bu yn hir ag a ddaeth wedi hynny i Langynwyd i fyw ag a fu'n cadw Ysgol yno. yddoedd ef yn Brydydd a Chwndidwr da.

I Ieuan ab Rys y bu fab a elwid Thomas ab Ifan ab Rhys, ag yn gyffredin Twm Ifan Prys, fe fu yng Ngharchar yng Nghastell Cynffig gan Syr Mathew Caradawc wedi hynny fe roddes Syr Mathew iddaw ei ryddyd, ag a ddodes dir dan ei law ef yn rhywle yn y gymmydogaeth hynny. bu wedi hynny yn byw ym Margam. A gwedi hynny yn Llangynwyd. ag yn ei henaint fe ddaeth i fyw i Landidwg, ag a dreulws ei ddyddiau diweddaf ym Margam. ydd oedd ef yn Brydydd da o Deuluwr a Chwndidwr, ag achos ei fod o'r ffydd newydd, efe a gafas lawer am ei benn. a chasineb gan fwy na mwy. efe a fu fyw i oedran Mawr, canys efe ddywed ar Driban fel hynn.

Un mil chwech cant yn gywrain,
A phedair blwydd yn gyfain,
Dechreu Ionor, cyfrif teg,
Wyf gant a ddeg ar hugain.
(o Lyfr Mr Lewys o Ben Llin.)

Ydd oedd Twm ab Ifan ab Rhys yn wr duwiol a da iawn meddir, ag yn Brydydd da. y mae llawer o gwndidau fyth o'i waith ef ar glawr gwlad. y mae son iddo ddodi rhai o henynt mewn print, ond nid oes nemor, os neb, yn fyw yn awr ag ai gwelasant erioed. dywedir iddo weled mewn llyfr bychan ysgrifen y geiriau hynn.

"Ymgais o dy dduw a'th holl allu, a'th holl fwriad, ag ath holl Ddeall, a char êf a'th holl serch ac a'th holl ewyllys ag a'th holl galon.

Câr dy gymydog fal y cerit dy hunan. a dioddef drosto a ddioddefit dros dy Dduw a thros dy gar anwylgu, a thros dy hunan,

Câr pob daionus a phob hardd, a phob iawn, fal y cerit dy Dduw a'th hunan.

Glŷn wrthynt oni bot gymmaint yn un ag wynt ag y mae Duw, ag o wneuthur felly ti a fyddi mor wahanedic oddiwrth pob drwg a drygionus, ac oddiwrth pob anhardd ac anweddus, a phob anwiredd, a phob anghyfiawn, a phob twyll a phob hud, ag y mae Duw ei hun.

Nag ofna na chosp na phoen nag un eisiau neu diffyg, nag un dioddef pei angau, ag na'th rwystrer ganthynt

Na chwanta ddim o ddäoedd byd y welot nag y glywot am danynt nag a ddeallot, namyn daoedd o Dduw ai rad oi Yspryd Glân. a gadael i dy Dduw drosot ac erddot.

Ag o gaffaeliad ar hynn a gampau a chyneddfau y ceffi ddeall cyfiawn ar bob peth o'r byd, ag o ddeall cyflawn gwybodaeth gyfiawn, ag o wybodaeth gyfiawn gwybod oll a fu, y sydd, ac a fydd. ac o hynny awen o Dduw a medr ar Brophwydoliaeth, yna y gwybyddi ac y dangosi oll a ddaw ar y byd hyd ddydd brawd, canys golwg Duw a fydd ynot.

Wedi darllain hynn efe a ymrois yn wr Duwiol iawn ac a ddywed lawer o brophwydoliaethau, ag ni fynnai yn y byd o dda namyn a roddid o fodd iddo am waith a wnelai. a hynny dyrnu yd gan mwyaf.—*Llyfr J. Bradford.*

MORMONIAETH.

Mr. Golygydd.—Yn enw pob tegwch yr ydych wedi rhoi digon o râff i J. Richards. Yn y ffordd y mae wedi myned ymlaen, gall wneuthur sylwadau yn dragywydd, heb roddi un goleu newydd ar y pwnge. Yn fy ysgrifau ar Formoniaeth, y rhai ydynt wedi bod ymron blwyddyn bellach o flaen eich darllenwyr, nid oeddwn yn proffesu adrodd dim nad oedd wedi ei gyhoeddi eisioes yn Saesneg. Enwais ar yr un pryd yr awdwyr, oddiwrth ba rai yr oeddwn wedi benthyca'r ffeithiau a adroddais; sef, Gweithiau *Turner* a *Caswell* a *Chambers' Miscellany*. Dywedais eu bod yn ymddangos yn "awdurdod da;" dywedaf hynny etto: ac y mae yn ffaith anwadadwy fod yr awdwyr a enwyd yn cael eu cyfrif yn gyffredinol yn ddynion deallus, gonest a geirwir. Afreidiol yw i mi ymhelaethu, ar ffaith ag sy'n gwbl adnabyddus i chwi Syr, ac i nifer fawr o'ch darllenwyr. Drwg iawn gennyf weled fod anwybodaeth J. Richards ar y matter, a'i ragfarn, ac yn fwy na dim ei wagdyb ryfygus am dano ei hun, yn ei wneud yn ofer i mi geisio ei argyhoeddi ef o'i gamsyniad. Dadleu â phroffwyd "proffesedig"—dyn ag sy'n *tybied* ei fod yn "gwybod y dirgelion" trwy ffordd wyrthiol—cedwid fi rhag y fath beth! Nis gwn lawer am y Seintiau yn bersonol; ond rhaid i mi addef fy mod yn lled-dybied fod rhyw wendid o'r fath yn bod, wrth weled J. R. yn cynnyg *haeriadau* yn lle *rhesymau*. Weithiau meddyliwn mai yr achos ydoedd, yr olwg wael oedd ganddo ar ddarllenwyr yr *Ymofynydd*; ond yr wyf yn awr yn gweled mai y gwir achos ydoedd yr *olwg uchel (rhy* uchel medaf fi) sydd ganddo am dano ei hunan.

Ond bid a fynno, dyma fel y mae'r ddadl yn sefyll. Nid yw J. R. na neb arall yn beiddio dywedyd i mi wneud y cam lleiaf a'r awdurdodau yr oeddwn yn proffesu benthyca oddiwrthynt. A chan hynny, mor belled ag y perthyn i mi fel awdwr yr ysgrifau dywededig ar Formoniaeth, gellid gadael y peth yn y fan.

Ond y mae J. R. a'r Mormoniaid yn haeru nad yw yr Awdurdod yn dda. Dywedant na ddylid coelio dinaswyr Palmyra ar eu llw, na Mr Caswell yn ei adroddiad a ysgrifenodd o'i ymddiddan a Joseph Smith. Paham felly? Onid oedd y rhai a gyd-unasant i wneud yr *affidavit* ynghylch caracter gwael Joseph Smith a'i deulu, yn ddynion cyfrifol yn Palmyra? Y mae J. R., yn cydnabod eu bod yn flaenoriaid gyda'r enwadau crefyddol yn y lle. Myn J. R. fod y dynion hyn wedi tyngu anudon, er mwyn dial eu cenfigen a'u llid ar Joseph Smith a'i blaid!

Mae eich darllenwyr yn gwybod yn dda nad yw J. R. wedi dwyn ymlaen un rheswm yn y byd dros beidio rhoddi coel i dystiolaeth gwŷr Palmyra a Mr. Caswell; os na chymmerir yn lle rheswm ei haeriad ef yn unig; sef, bod y tystion hyn yn "elynion proffesedig." Pwy bynag sydd wedi tystiolaethu yn anffafriol am y Mormoniaid, a chyhoeddi eu twyll i'r byd, "gelynion proffesedig" ydynt, medd J. R. peidiwch a choelio yr hyn a ddywedont eu bod wedi ei weled a'i glywed! Beth bynnag sy'n ddiffyg ar J. R. mae'n amlwg ei fod yn meddu ar ddigon o haerllugrwydd.

Dywed ef, na ddarfu iddo "addaw gwrthbrofi y ffeithiau a adroddais." Y peth a gynnygiodd ef ydoedd "nodi ychydig wrth-ddywediadau," fel y geilw ef hwynt. Ond sut mae ef wedi cyflawni yr amcan hynny? Mewn modd tra chywraint ac anghyffredin, rhaid addef. Camgymeryd yr hyn a ddywedais, a chyfrif i mi ymadroddion a geiriau nas defnyddiais, ac yna wedi iddo ei hun wneuthur i fyny wrth-ddywediad, priodoli hwnnw i mi! Yr oedd hynny yn annheg ac yn annoeth yn J. R. Er siampl, ni ddywed-

ais i—"fod un ran o dair, o'r grefydd Formonaidd, yn Gristnogaeth;" nac ychwaith—"fod areithiau y pregethwyr Mormonaidd yn llawn o Gristnogaeth;" ac nid wyf fi yn attebol am yr hyn a gesglir oddiwrth frawddegau nas darfum eu defnyddio. Dylasai J. R., gofio fod y fath annhegwch, heb ddywedyd anonestrwydd, yn amlwg i'r darllenydd deallus.

Yn y rhifyn diweddaf, tudal 163, gwelodd efe yn gymmwys i roddi adroddiad o groes-ddywediadau a wnaed o bryd bwy gilydd, gan hwn a'r llall yma a thraw, ynghylch Joe Smith, llyfr Mormon, *peep-stone*, a phethau cyffelyb. Ond beth sydd a fynno hynny a'm ysgrifau i ar Formoniaeth? Rhaid mai dyn *odd* iawn yw y J. R. yma. Yn rhif Mehefin, tudal 139, gofyna—"Pa le mae y dyn a welodd Smith, yr ieu., yn treilio gymaint ag un diwrnod cyfan yn ei fywyd, i gloddio am arian neu drysorau cuddiedig o'r fath. Os oes y fath ddyn i'w gael deier a'i enw a'i dystiolaeth ger bron." Yn awr, beth pe y deuid a'r fath ddyn ger bron, a phe y byddai i gadarnhau tystiolaeth dinaswyr Palmyra, oni ddywedid am dano ef, yr un modd ag am danynt hwy,—"*Gelyn proffesedig" yw hwn yna, peidiwch a'i goelio.*" Ond dan yr amgylchiadau yr un peth fuasai i J. R. ofyn—Pa le mae'r dyn a welodd Smith, yr ieu., am un diwrnod cyfan yn ei fywyd, gydag un gorchwyl yn fwy na'i gilydd? Deuer a'i enw a'i dystiolaeth ger bron. Mae'r naill beth mor anhawdd a'r llall. Mae J. R. yn fy nghondemio am wneud defnydd o'r geiriau "feallai," "ond odid," "tebyg," a'r cyffelyb, pan yn llefaru am bethau gyda gradd o ansicrwydd, mwy neu lai? Beth yw'r matter ar y dyn? A fynnai efe i mi arfer twyll, neu ddefnyddio iaith chwyddedig a chableddus?

Achwyna J. R. fy mod, yn fy ysgrif (Rhifyn Mawrth) wedi "gwneuthur cam a'r dystiolaeth am y llafnau." Ond, attolwg, pa gam a wnaethum? Dywedais "nad oeddwn yn meddwl y byddai eich darllenwyr yn fwy awyddus i brynu Llyfr Mormon, o glywed fod 11 o enwau dynion llwyr anadnabyddus wedi eu gosod ar lawr wrth y llyfr, y rhai ydynt yn tystiolaethu i fod stori Joseph Smith am y llafnau yn *all right*;" a "bod gofyn cael dynion lled hygoel i ymddiried i dystiolaeth mor dlawd mewn matter o gymmaint pwys." Ai dyma oedd y "cam a wneuthum?"

Yr wyf, oddiar hynny, droion, wedi darllen y dystiolaeth ddywededig: sef, eiddo'r tri thyst blaenaf ynghyd ag eiddo'r wyth eraill, fel y mae yn argraffedig, yn Saisneg, ar ddechreu Llyfr Mormon—a'i darllen mor bwyllog ac mor ddi-ragfarn ag y medrwn i—ac yr wyf yn rhwym o ddywedyd, nad wyf wedi gweled un achos i alw yn ôl yr hyn a ddywedais. Y mae yn ffaith nas gellir ei gwadu, i fod y dystiolaeth yn ddiffygiol yn rhai o'r pethau anhebgorol. Nid yw y tystion yn proffesu eu bod wedi darllen, nac yn medru darllen a deall yr hyn oedd ysgrifenedig ar y llafnau mewn cwestiwn. Mae J. R. yn cyfaddef eu distawrwydd ar y pwngc. Pa gam, ynte, wnaethum i a hwynt? Sicr yw mai swm a sylwedd yr hyn a ddywed y "tystion," y tri phrif dyst yn enwedig, *Cowdery*, *Whitmer* a *Harris*, ydyw hyn; sef, eu bod hwy mewn ffordd wyrthiol, trwy ddisgyniad angel o'r Nef, wedi cael sicrwydd, i fod y llafnau a gynnwysent gôf-hanes pobl Nephi &c., wedi cael eu rhoddi a'u cyfieithu trwy allu Duw. Ac ar hyn, rhag blino amynedd eich darllenwyr, y mae'n ddigon i sylwi: fod y fath dystiolaeth *yn gofyn cadarnhâd. Heb y cyfryw gadarnhâd y mae yn syrthio i'r llawr*; yr un modd ag y mae haeriad J. R. tud. 164, "Ei fod yntau wedi cael tystiolaeth oddiwrth Dduw &c." Gorphwysaf bellach. Yr eiddoch &c.

Gorph. 15, 1851. PHILALETHES.

BERWR GWYLLT.

[*Dittander—Lepidium latifolium*].

Y Pybyrlys (fel ei gelwir gan feddygon Myddfai), a blanir gan rai yn eu gerddi, ond a dyf yn wyllt mewn amryw barthau; blodeua tua diwedd Mehefin. Ei gorsen sydd gron a chaled, yn tyfu i o dair i bedair troedfedd o uwchder, yn ymdaenu yn amryw golfau. Y dail ynt hirion a llydain, yn flaenfeinion, gyda man dorriadau ar eu hymmylau; eu lliw sydd laswyrdd ysgafn. Y blodau ydynt wŷnion a bychain; canlynir hwynt gan hadlestri bychain, o ffurf crwn. Y gwreiddau ynt yn ymdaenu yn y graian, megis cynnifer o fân linynau. Y dail a ddefnyddir. Eu blas sydd boeth a phybyrlyd, ond ni feddant flas aroglaidd y pybyr—dywedir eu bod o wasanaeth i laesu gwŷnegon y gymmalwst, wrth eu cymmhwyso at y fan yn llys-blastr, a'u gadael i aros dros awr neu ddwy.

BERWR Y FAM.

[*Hedge or Wild Mustard—Erysimum vulgare*].

Y mae cynnifer enw, yn Gymraeg a Saesneg, ar y llysieuyn hwn, nes yw yn abl i wangaloni un i ddechreu eu hysgrifenu; ond i'r dyben i'r darllenydd gael cyfle i'w adnabod, enwaf rai o honynt:—Berwr y torlanau, berwr Caersalem, berwr y gauaf, mwstardd gwyllt, ac yn Ngheredigion, *goresgynnydd*. Chwyn ydynt a felynant y maesydd ŷd, yn enwedig gaeau cloron. Tyfant y cyrs gwyrdd-dywyll, gwydnion ac amlgangawg, o un i bedair troedfedd o uwchder; ar y rhai y tyfant ddail hirion, geirwon, gydag ymmylau torredig, ac o oleuach gwyrddni na'r cyrs. Y blodau ydynt felynion a bychain, yn tyfu yn dyswau, gan ymagor yn nechreu'r haf, yn issel ar y gorsen, a'i dylyn felly, yn raddol hyd ei brig, nes yw y llysieuyn yn ymddangos yn ei flodau trwy yr haf. Yr had, yr hwn a gynnwysir mewn cibau bychain, a fedd flas poeth, ond gwanach na mwstardd cyffredin.

Llysieuwyr diweddar a honant na fedd y llysieuyn hwn unrhyw flas neillduol heblaw un llysieuaidd; ond y mae hyn yn gyfeiliornad. Esgeulusir ef yn hollol bron, yn ein dyddiau ni, er ei fod, tu hwnt i ammheuaeth, yn feddianol ar ei rinweddau, y rhai, yn ol hen awduron, ydynt fel y canlyn:—rhyddha gaethni y ddwyfron, estyn yr anadl, llarieidda a symmyda ymaith hen beswch a fyddo wedi blino y dyoddefydd am flynyddau, trwy bylu gwlybyron pigog a ogleisiant yr ysgyfaint. Mewn amgylchiadau o'r fath hyn, rhaid dyfal barhau i'w ddefnyddio, cyn gellir disgwyl nemawr les oddi wrtho. Cymmerer ei sudd, a thodder ei bwys ddwy waith o siwgr gwyn ynddo, tra fyddo yn ferwedig; wedi iddo oeri, costreler ef, a cheidw felly am hirfaith amser. Cymmer lloned llwy fwrdd o hono fel y byddo yr angen. Rhodder prawf teg iddo, gan ei fod yn hollol ddiniwaid.

BLAEN YR IWRCH.

[*Dogs' Mercury — Mercurialis caulis simplicissima, foliis scabris*—Linnaeus].

Llysieuyn tra pheryglus, os nad hollol wenwynig, ydyw hwn; ac felly, yn gofyn desgrifiad manwl a gofalus, yn nghyd a gwahaniaethad amlwg oddi wrth lysiau ereill cyffelyb mewn ffurf iddo, er diogelwch y Llysieuydd, ac ereill a ddichon ymddiried i'w wybodaeth. Gelwir ef wrth yr enwau canlynol, mewn gwahanol ardaloedd:—bresych y cŵn, cawl y cŵn, cwlwm yr asgwrn, cifresych, &c.

Cair ef yn tyfu mewn sefyllfaoedd cysgodol, yn gynnar yn y gwanwyn. Nid oes dim yn ei ymddangosiad a'n darbwyllai i'w ochelyd, ond i'r gwrthwyneb, ymddengys yn brydferth a deniadol dros ben.

Y mae y golof, ar yr hon y tyfant y dail, tua throedfedd o uwchder; yn gron braffus, blaenfain, o liw goleu wyrdd, ac ychydig yn flewog.

Tyf y dail tua blaen y gorsen, yn bump neu chwech, anfynych fwy o nifer; y maent yn hirion, bonlydain, blaenfeinion, yn doredig eu hymmylau, ac ychydig yn flewog. Y blodau sydd anhynod, ac a safant yn dyswau ar flaen y golof; yr had sydd ar blaenhigyn gwahanol; ac am hynny, rhennir y planhigyn i ddwy rywogaeth; y gwryw, ar yr hwn y cair y blodau; a'r fenyw, ar yr hon cair yr had.

Ar dystiolaeth y Llysieuwyr mwyaf cyfrifol, gellir dweud nad ocs yn tyfu yn

ein hynys lysieuyn mwy gwenwynig na hwn.

Y mae genym hanes iddo fod yn angau i amryw, o bryd i'w gilydd, trwy gael ei ferwi, mewn anwybodaeth, yn mysg gwanwyn-lysiau creill yn eu bwydydd. Dylid, wrth gasglu llysiau, fod yn dra gofalus rhag camgymmeryd llysieuyn fel hwn, er engraifft, yn lle rhyw un a ymddengys mewn rhai pethau, yn gyffelyb iddo: ac ni ddylai neb ddefnyddio llysieuyn ar [illegible], neu heb ei fod yn ei adnabod yn ddiammheuol, rhag iddo, yn ei anwybodaeth, wneud defnydd o'r un dan sylw, a chael talu am ei amryfusedd â'i fywyd.

BLODAU'R BRENHIN.

[*Pliny—Pæonia*].

Blodeuyn cyffredin yn ein gerddi ydyw. Y rhywogaeth a fedd flodau unigol, yw yr un a ddefnyddir mewn meddyginiaeth: tyf i o ddwy i dair troedfedd o uwchder: y gorsen sydd gron, rhygnog a changenawg: y dail ydynt doredig i amryw fan ddarnau, ac o liw glasgoch dwfn. Yr hadlestr sydd gam neu gornfal, yn cynnwys manhadau duon.

Y mae i'r rhywogaeth gwrywaidd ddail llai toredig eu hymmylau, golenach eu lliw, yn nghyd â blodau dwbl, hadlestri o faintioli mwy, a hadau dysclaerach eu lliw—na'r eiddo y rhywogaeth fenywaidd. Gwraidd yr olaf sydd gnapiog a mawr: a'r eiddo y blaenaf sydd fawr, ond nid yn gnapiog: eu lliw sydd lwyd oddi allan, a gwyn oddifewn. Y gwreiddau a'r had a ddefnyddir: meddant arogl trwm cwsgbarol ac anhyfryd. Edrychir arnynt fel esmwythai a meddalai: cyfrifir eu bod hefyd yn wrthwrwstaidd (*antispasmodic*); ond gyda pha briodoldeb y mae yn anhawdd gwybod. Dywedir yr attalia yr had yr hunlle (*nightmare*), a'u cymmeryd wrth fyned i'r gwely.

BLONEG Y DDAIAR.

[*The White Bryony—Bryonia Alba*].

Heblaw yr enw blaenorol, gelwir y planhigyn hwn hefyd:—rhwymyn y coed, grawn y perthi, paderau y gath, erfin y ddaiar, erfinen wyllt, &c.

Dringedydd perthi a phrysgwydd ydyw, ac iddo wreiddyn mawr a chonglog, yn pwyso o dri i bum pwys, mwy neu lai, yn ddu oddi allan a gwyn oddi fewn, yn llawn sudd gludaidd, o flas egrboeth, chwerw, a ffiaidd, gydag arogl cryf ac anhyfryd pan yn ir. Y mae sudd y gwreiddau hyn mor llym a chryf, fel y pothella y croen, ond ei adael arno am ychydig amser.

Oddi ar y gwreiddau hyn, tua diwedd **Mai, y tyf cyrs meinion, wedi eu cynys**gaeddu ag adfachau, a pha rai y gafaelant yn y sylweddau nesaf attynt, y rhai a ddringant i gryn uwchder; y dail ydynt aml, llydain, yn doredig eu hymmylau i bum darn, yn cirwon, blewog, ac o liw gwyrdd llwydwyn: y blodau a safant ar golfau hirion, yn gyfansoddedig o bum dalen yr un, yn fychain ac o liw glaswyn. Canlynir y rhai'n gan y grawn, y rhai, pan yn aeddfed, ydynt gochion a golygus: eu blas sydd hynod o ffiaidd. Y mae rhywogaeth arall o'r dringedydd hwn a elwir rhwymyn y coed, a'i rawn a elwir arian gwion; y mae yn dra chyffelyb i'r un a ddarluniwyd, ond ei fod yn amddifad o adfachau, a bod ei ddail yn llyfnion ac ar dull calon, yn nghyd ac yn dywyllach eu lliw.

Fel y soniwyd, y gwraidd a ddefnyddir. Y mae yn ysgarthai a dwfrberai grymmus a llidus. Defnyddir ef weithiau **mewn rhyw achosion o'r dyfr-glwyf: ac mewn rhai amgylchiadau o wallgofrwydd.**

Y mae defnyddio y gwreiddau hyn, hyd yn od mewn dognau bychain, yn **gofyn medrusrwydd a gofal neilldnol.**

Yn allanol, gwasanaethant weithiau i symmud ymaith hen wynegon, trwy eu cymmhwyso, yn ir, ar y fan, a'u gadael i **aros ychydig.** D. L. M.

CYFLYMDER GOLEUNI.—Y mae goleuni mor gyflym fel ag y gallai fyned o Gaerfyrddin i Lundain, ac yn ol, bedwar cant o weithiau yn y dringeinfed ran o fyned, neu tra y byddai dringlyn awrlais yn ymsymud unwaith. Y pellder rhwng y ddau le sydd yn agos i ddau can milldir. Y mae hyn yn ymddangos mor anghredadwy, fel y dywedodd y **Dr. Hooke, pan y cafwyd y peth allan gyntaf, y** byddai yn haws ganddo ef gredu fod y goleuni yn tywynu yn berffaith ddisymmwth, am unrhyw bellder, nà meddwl y gall fod unrhyw symudiad graddol mor gyflym. Pa fodd bynag, gosodir gwirionedd y peth anhygoel hwn tu hwnt i ammheuaeth trwy lawer o brofion.

Syr,—Gan fod dau gwestiwn yn cael ei ofyn fynycha ynghylch Sebon, sef, pa bryd y dyfeisiwyd ef, a pha sut yr oedd pobl yn cadw eu hunain yn lân cyn yr amser hwnnw; dyma fi yn cynnyg rhoddi atteb-ad iddynt, er mwyn rhoddi gwybodaeth i'r rhai hynny nag sydd yn gwybod am dano, yn enwedig derbynwyr yr *Ymofynydd* yn Nyffryn Clettwr, Sir Aberteifi. Mae y crybwylliad cyntaf a feddwn am Sebon yn digwydd yng ngweithiau yr ysgrifen-wyr Rhufeinaidd a Groegaidd. Pan ledaenodd Rhufain ei gallu dros wledydd pellenig, hi a ddysgodd gelfyddydau y bobl a orchfygasai; ac felly fe ddaeth yn adnabyddus fod yr Almaeniaid a'r Gaul-iaid yn arfer sylwedd i olchi ag ef, yr hon, yn eu iaith hwy a elwid *Seip*; y Rhufeiniaid a'i galwent ef *sapo*; y Saes-on *soap*; a'r Cymry *sebon*. Mae yr ysgrifenwyr, sydd yn crybwyll am dano, yn ei ddesgrifio fel wedi ei wneuthur o frasder geifr a lludw, wedi ei gyd-gym-ysgu trwy wrês; ac yr oedd dau fath o hono, fel yn bresenol, un yn galed a'r llall yn feddal, ac hefyd amrywiol rywiau o'r ddau fath yma, a daeth rhai o honynt i arferiad ymhlith y graddau uchaf yn Rhufain at drin eu gwallt yn gystal ac ymolchi. Am hynny gallwn benderfynu fod Sebon wedi ei ddyfeisio gan y bobl a elwid barbariaid, oddeutu dwy fil o flyn-yddoedd yn ol.

Cyn yr amser hwnnw, yr oedd rhai cynnyrchion naturiol yn cael eu harfer wrth olchi; ond rhaid fod glanhâu lliain neu frethyn gwlanen yn waith o gryn lafur gyd â hwy, ac yn llawer llai perffaith nâ chyd a Sebon. Yn yr amseroedd cyn-naraf, yr arfer oedd, ac y mae yn parhau i fod etto ymhlith llwythau anwar, i sath-ru ar y pethau oedd i gael eu golchi, â'r traed yn y dwfr. Mae Homer yn cyfeirio at y dull yma o olchi. Weithiau yr oedd trwyth yn cael ei wneuthur trwy dy-wallt dwfr ar ludw coed; ac arferid hwn i lanhau pethau eraill—llestri gwin, a del-wau y duwiau yn y temlau. Yr oedd nitr yr Aipht hefyd yn cael ei arfer wedi ei ddodi mewn dwfr: credir mai yr un sylwedd ydyw hwn a'r un y sonir am dano yn yr Ysgrythyrau Hebraeg, dan yr enw *bouth*. Oddiwrth eiriau Jeremiah —"Pe byddai it' ymolchi a nitr, a chym-meryd it' lawer o Sebon;" yr ydym yn cael ein tywys i gredu, fod hyd yn oed yn y dyddiau boreol hynny, ddau fath o sylweddau mewn arferiad gan neu ym mhlith yr Iuddewon. Mewn rhai gwled-ydd hefyd, yr oedd ffynhonnau gwrthsur-ol (*alkaline*) yn ffrydio o'r ddaear, a gellid golchi yn nyfroedd y rhai hyn heb Sebon. Y mae y bobl yn eu defnyddio etto mewn gwahanol rannau o Ewrop. Yr oedd bustl bustych hefyd yn cael ei arfer i raddau helaeth, a thrwyth dynol fe allai yn fwy na'r cwbl.

Yr oedd cymmaint o werth yn cael ei roddi ar yr olaf hwn yn Rhufain, fel ac yr oedd llestri yn cael eu gosod yng nghonglau yr heolydd i'w gasglu, y rhai a ddygid ymaith pan y byddent yn llawn-ion gan y golchyddion; y rhai o herwydd yr arogl anhyfryd oedd yn perthyn i'w galwedigaeth, oeddynt yn gorfod byw mewn cwm pell o'r ddinas. Mae arfer-iad tra chyffelyb mewn bod yn awr yn China. Yr oedd yn un ac oedd yn attal halogiad y muriau a'r prif dramwyfeydd, tra ar yr un pryd yr oedd yn gwneuthur elw o'r peth a fuasai, pe na bai am hyn, yn gas beth. Gosododd yr ymerawdwr Vespasian dreth arno; yr hon a delid mae'n debygol gan y rhai oeddynt yn cael elw oddi wrtho. Mae mewn arferiad etto yn rhai o barthau gogleddol Brydain lle, ychydig flynyddoedd yn ol, y byddai y gwasanaeth-ddynion yn arfer ei werthu i gasglyddion.

Heblaw y pethau hynny y mae amryw fathau o flawd yn meddu rhinweddau glanhâol, megis ceirch, haidd, a ffa. Gellir defnyddio bran hefyd, a dwfr *rice* gyd a phethau tyner fyddant yn agored i golli eu lliw, neu yn rhy weiniaid i ddal cael eu rhwbio lawer. Arferir blawd etto i drwsio amryw fath o wlanenau, a chredir yr arferid llawer mwy o bridd y pannwr ystalm nâg a wneir yn awr.

Mae lle i gredu befyd y byddai yr hen-afiaid yn gwneuthur defnydd o sudd y sebonlys (*soapwort*), planhigin a geir yn Lloegr, ac mewn amrywiol wledydd yn Ewrop. Y mae yn tyfu i oddeutu deunaw modfedd o uchder, yn agos i gloddiau a llwyni, ar fôn crwn, yr hwn, yn gystal a'i ddail, sydd yn hynod o lyfn. Y blodau ydynt o liw gwridaidd gwan, gyd ac arogl trymllyd, ac a flodeuant yn Awst a Medi. Mae rhai o fath dyblyg

yn cael eu tyfu mewn gerddi; mae sudd y planhigyn hwn yn ffurfio trochion mewn dwfr; gwasanaetha y dail fel sebon pan rwbier hwynt, a symudant ysmotiau o wêr oddiar frethyn. Byddai unwaith yn cael ei gymhwyso fel meddyginiaeth i ryw fath o afiechyd yn y croen. Mae planhigyn o gyffelyb natur yn cael ei arfer yn dra chyffredin gan y bobl wledig yn yr Hispaen a Portugal.

Cymyrch llysienol arall ydyw ffrwyth y *sapindus*, fel y gelwir ef, gair byr am *sapo Indicus*—llysieuyn sydd yn tyfu yn yr India Ddwyreiniol ac Orllewinol. Y mae y ffrwyth yn dyner, oddeutu maint cnirosen (*cherry*), ond y mae yn gofyn cael ei gymmysgu a chryn lawer o ddwfr, gan ei fod o natur ysawl iawn. Mae y bobl a'i harferant ef, yn achlysurol, ym mharthau pellaf yr America, os na byddant yn ofalus, weithiau yn andwyo eu dillad ag ef. Os teflir y sudd hwn i afonydd neu lynnoedd, efe a feddwa y pysgod ynddynt. Byddai yr hadau neu y cnau unwaith yn cael eu dwyn i Loegr, ac arferid hwy fel bottynau gwasgodau, ag yr oeddent yn dra pharhaus wedi eu hymylu a mettel.

Yn nechreuad yr unfed ganrif ar bymtheg, oddeutu 1525, y dechreuwyd gyntaf i wneuthur sebon yn Lloegr; cyn yr amser hwnnw byddai yn cael ei ddwyn o wledydd tramor. Y pris am un math, ydoedd ceiniog y pwys; am un mwy cyffredin dimeu y pwys. Mae lle i gredu fod y Rhufeiniaid wedi dyfod i wybod pa fodd i'w wneuthur yn gynnar iawn, oblegid ym mhlith olion craill o'r bobl hynny a gafwyd yn Pompeii, yr oedd gweithfa sebon, a llawer o sebon ynddo yn berffaith, er ei fod wedi bod yn gladdedig am ddau cant ar bymtheg o flynyddoedd. Nid oedd y dull o'i wneuthur yn wahanol iawn oddiwrth yr un sydd yn awr.

Llwyn-Dafydd,
Cae Newydd.

D.T.

(I'w orphen yn y nesaf.)

Hanesion Cartrefol a Thramor.

CYFARFOD BLYNYDDOL UNDODIAID Y DEHEUBARTH.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn, yn ol yr hysbysiad, ar ddydd Mercher a dydd Iau, yr 2 a'r 3 o Orphenaf, yn yr hen Dy Cwrdd, Aberdâr. Yr oedd yr hin yn hyfryd iawn, ac yr oedd gweinidogion a chyfeillion lawer wedi ymgynnull yno o bell ac o agos. Ac os nad yw'r ysgrifenydd yn camsynied yn fawr, cafodd y gwrandawyr yn gyffredinol fel yntau, achos da i ddywedyd mai da oedd iddynt fod yno.

Dechreuwyd y cyfarfod cyhoeddus prydnawn dydd Mercher, trwy ddarllen a gweddi, gan Mr. Titus Evans, Caerfyddin. Pregethodd Mr. T. Thomas, Pantydefaid, yn Gymraeg, oddiwrth. Ioan iv. 20–22, a Mr. R. L. Carpenter, Castellnedd, yn Saisneg oddiwrth Ioan xvii 3.

Boreu dydd Iau, darllenodd a gweddiodd Mr. J. E. Jones, Penybont; a phregethodd Mr. James, Gellionnen, yn Gymraeg, oddiwrth Col. i. 27; a Mr. Carpenter yn Saesneg ar y testun oedd i'w drafod yn y gynnadledd ganlynol, oddiwrth 1 Cor. ix. 23—26.

Ar ol darfod pregethu a chanu mawl, dewiswyd Mr. Jones, gweinidog y lle i fod yn gadeirydd, er cadw trefn yn y gynnadledd, yr hon, fel mae'n arferol, oedd yn agored i bawb o'r gymmuleidfa. Y testun a rag-appwyntiwyd oedd—"Anhepcorion Cymmundeb Cristnogol; neu pa bethau sydd yn raid i ddyn fod yn feddiannol arnynt cyn y byddo yn addas i goffau am Iesu Grist." Llefarwyd ar y testun yn bur helaeth gan Meistriaid O. Evans, Cefn; J. E. Jones, Penybont; a J. James, Gellionnen. Penderfynwyd fod y Cyfarfod Blynyddol nesaf i fod yn Rhyd-y-Parc. Mae'r Cyfarfod Cwarterol nesaf i fod yng Nghastell-nedd; a Mr. T. Thomas, Pantydefaid, sydd i bregethu yn Gymraeg.

Cyfarfyddwyd eto, prydnawn dydd Iau. Dechreuwyd yr addoliad gan Mr. D. L. Evans, Colyton; a phregethodd Mr. Lunn, o Ferthyr, yn Saisneg, a Mr. Titus Evans, yn Gymraeg.

YR EXHIBITION.

Nid oes dim newydd i'w hysbysu am yr arddangosiad mawr, ond bod ymwelwyr o bob gradd, ac o bob parth o'r wlad, ac o'r

cyfandir, yn parhau i lifo i mewn iddo, fel afonydd didrai. Mae'n syndod i feddwl, fod mwy na 74 mil wedi ymweled a'r lle yr un diwrnod, ac yn treulio y rhan fwyaf o'r dydd yn yr adeilad i edrych ar ryfeddodau diwydrwydd a dyfais dynol. Mae'n syndod fod un adeilad, chwaethach un o wydr, yn gallu cynnwys y fath luaws anferthol yn ddiberygl, ac heb anghysur; ac y mae yn wers yn gystal ag yn syndod, i weled ymddygiad tawel a boneddigaidd y werin o bob gradd, a'r cwbl yn cael ei ddwyn ymlaen heb yr annhrefn neu'r terfysg lleiaf. Rai diwrnodau yn mhob mis yr ydys wedi, ac yn cymeryd ymwelwyr i Lundain ac yn ol, ar hyd reil-ffyrdd a thros y mor, ar delerau isel iawn. A'r tri diwrnod cyntaf o bob wythnos nid oes ond swllt yr un i'w dalu wrth y drysau; 2s. 6c. dydd Gwener. a 5s. dydd Sadwrn. Yr ydym yn darllen fod dros 200 yn dechreu eu ffordd yno ar un boreu, o Ferthyr Tydfil a'r gymydogaeth. Cauir y lle i fynu ar y cyntaf o Dachwedd. Pa ddefnydd a wneir o'r adeiliad wedi'n, nid oes neb yn gwybod.

CYFARFOD CYMDEITHAS HEDDWCH.

Nid yn anghymwys, yn ol ein barn ni, y cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn, yn Llundain, yn amser "ffair fawr y byd." Dechreuwyd dydd Mawrth y 22ain o'r mis diweddaf, yn Exeter Hall. Ni ddefnyddiwyd y neuadd fawr-wych ddim oll i well pwrpas. Pa bwrpas all fod yn cyd-fyned yn well â gwir les y gwahanol wladwriaethau, trigolion pa rai ydynt ar y tymor hwn yn ymgynulledig yn Llundain? Dewiswyd yr enwog Sir D. Brewster i fod yn Llywydd. Gwnaeth ef araeth ragorol, ar agoriad y cyfarfod, er dangos yr anghysondeb a'r ffolineb o fod cenhedloedd gwareiddiedig yn myned i ryfel â'u gilydd. Buasai yn dda genym allu rhoddi sylwedd ei araeth; ond ni chaniateir lle, nac amser i hyny ar y pryd hwn Yr oedd yn bresenol lawer iawn o ddynion enwog am eu dyngarwch a'u gwladgarwch, o Brydain Fawr ac o'r Cyfandir

Cynhaliwyd cyfarfodydd eraill y dyddiau canlynol, ac areithiwyd yn dda iawn, gyda'r amcan, gobeithio nid yn ofer, o gael rhyw effaith ar ddieithriaid a brodorion, fel na byddont mor awyddus ar unrhyw anghydfod, i fyned i ryfel a'u gilydd mwyach.

GWNEUTHUR DAIONI YN LLEDRADAIDD.

Mewn cyfarfod wythnosol Elusendy'r Frenhines (*Queen's Hospital*), *Birmingham*, y mis diweddaf, darllenwyd llythyr oddiwrth Mr. T. Eyre Lee, yn cynnwys rhodd o £800 oddiwrth ryw gymmwynasydd di-enw. Penderfynwyd fod y llythyr i gael ei ysgrifenu i lawr yn eu cof-lyfr; a bod y *committee* yn derbyn gyda diolchgarwch gwresog, rodd haelionus F.H.P., y cymmwynasydd nad adwaenid, ar y telerau gofynedig Penderfynwyd hefyd yn unol â dymuniad y rhoddwr, na fyddai dim ymofyn i fod, na chwilio pwy ydoedd, na lle yr oedd yn byw; ond bod Mr. Lee i gael mwynhau yr un breintiau a thansgrifiwr £10 y flwyddyn.

Y SENEDD.

Mae materion arferol y llywodraeth yn cael eu dwyn ymlaen yn rheolaidd, er bod y weinyddiaeth wedi cael eu trechu, a'u rhwystro yn eu hamcanion fwy nag un waith, yn Nhŷ y Cyffredin, ac yn Nhŷ yr Arglwyddi. Pe bai gweinyddiaeth Arglwydd J. Russell i roddi i fynu, nid oes neb ar hyn o bryd yn barod, nac yn alluog i gymeryd eu lle.

YSGRIF Y TEITLAU EGLWYSIG.

Y mae Ysgrif y Teitlau Eglwysig, ar gael ei phasio bellach gan yr Arglwyddi, gyda'r chwanegiad a ddygodd Sir F. Thessiger i mewn, yn groes i ddymuniad y weinyddiaeth; trwy yr hyn y bydd yn gyfreithlon i'r neb a fynno *informo* yn erbyn yr Esgobion Pabaidd, ar eu troseddiad, a'u dwyn dan afael a chospedigaethau'r gyfraith.

YSGRIF YR IUDDEWON.

Yr ysgrif hon, er galluogi Iuddewon, os dewisir hwynt, i fod yn aelodau'r Senedd—wedi iddi bassio Tŷ y Cyffredin am y bumed waith—a wrthodwyd gan yr Arglwyddi, ar y 17eg o'r mis diweddaf.

Drosti yr oedd	108
Yn ei herbyn	144
Mwyrif yn ei herbyn....	36

Yn y cyfamser yr oedd *Alderman* Salomons, Iuddew cyfoethog a chyfrifol, wedi cael ei ddewis, gyda mwyrif lawer gan fwrdeiswyr Greenwich, i fod yn aelod i'r Senedd drostynt hwy. Ar yr 21ain daeth ef ymlaen i gymeryd ei le, ac i gymeryd y llŵon gofynedig yn Nhŷ y Cyffredin. Caniatawyd iddo ef, fel y gwnaed o'r blaen i'r Baron Rothchild, i gymeryd ei lŵ ar yr *Hen Destament*. Aeth trwy yr holl lŵon yn rheolaidd hyd at y frawddeg ddiweddaf *"on the word of a Christian."* Dywedodd ei fod yn *passio* heibio y geiriau hyny, am nad oedd dros arfer geiriau twyllodrus. Ac ar hynny—fath anghysondeb!—wedi llawer o ymbleidio ac nid ychydig derfysg, pender-

fynodd y Tŷ nad oedd Mr Salomons wedi cymeryd y llŵon gofynedig, a gorfodwyd ef i ymadael o'u plith—ond nid heb perygl, neu o leiaf bygythiad o gospedigaeth am ei waith un waith neu ddwy yn rhoddi ei bleidlais *(vote)* fel aelod o'r Senedd. Yn ddioed, cynhaliodd dinaswyr y Brif-ddinas gyfarfod, er cymeryd yr amgylchiad dan ystyriaeth, a daethant i'r penderfyniad, fod y Baron Rothchild i sefyll ar ei hawl i eistedd ac i roddi ei bleidlais, fel eu cynrychiolwr hwy, yn Nhy y Cyffredin. Fel yma, mae'n debyg, dygir y peth o flaen y llysoedd barn.

FRAINGC

Y newydd mwyaf pwysig a dderbyniwyd yn ddiweddar o Ffraingc ydyw, fod y mwyrif yn yr Assembly, y rhai ydynt yn awyddus am cyfnewidiad *(revision)* o'r *Constitution*, wedi cael eu siomi a'i rhwystro yn eu hamcan am y pryd hwn. Yr ydys wedi cael gweled nas gellir, yn bresenol o leiaf, ddwyn y peth oddiamgylch yn gyfreithlon. Methwyd cael tair rhan o bedwar o aelodau'r *Assembly* dros y peth, fel y mae'r *Constitution* yn gofyn. Ar y 19eg o'r mis diweddaf, daethpwyd i benderfyniad; pan y cafwyd fod 446 dros gael y cyfryw *revision*; ond fod 278 yn ei erbyn—syrthiodd y cynnygiad i'r llawr.

AMERICA.

Mae y "*Fugitive Slave Act.*" cyfraith gywilyddus a wnaed yn ddiweddar gan y *Congress*; wedi peri cynnwrf mawr trwy yr Unol Daleithiau, yn enwedig y *free states*. O'r blaen buasai y caethion ag oeddent wedi gallu diangc o'u cacthiwed, yn cael byw yn ddiogel ac yn ddiofn, o fewn cyffiniau'r *free States*. Y mae'r gyfraith fileinig hon yn rhoddi awdurdod i'r caeth-feistri i hela y ffoedigion duon trwy bob cwr o'r Unol Daleithiau. Y mae llawer o'r trueiniaid wedi eu dal gan y gwaed-gwn, ar ôl iddynt fod am flynyddau mewn mwynhad o'u rhyddid, ac o ffrwyth eu diwydrwydd, ac wedi cael eu hanfon yn ôl mewn heyrn, i dreulio eu hoes mewn caethiwed.—Mae lluoedd wedi llwyddo i diangc i Canada, ac y mae rhai o honynt wedi gallu cyrhaeddyd ein Gwlad ni. Och ni! fod dynion sydd wedi bod yn uchel eu cymmeriad fel dyn-garwyr o Christnogion, ie, a rhai gweinidogion yr Efengyl, o bob enw, wedi rhoddi annogaeth i'r fath greulondeb ac anghyfiawnder!

Marwolaeth.

Mehefin 26, yn 76 mlwydd oed, John Jones, Ynysderw, gerllaw Pont-ar-dawe, swydd Forganwg. Yr oedd yn adnabyddus i niferoedd ymhell ag yn agos fel dyn ag na chyfarfyddid a'i fath yn aml. Yr oedd ei gôf a'i ddeall yn grâff iawn; ei wybodaeth mewn pethau gwladol a chrefyddol yn hynod o helaeth, a'i serchiadau yn wresog: —mewn gair yr oedd o galon ag anian dda. Coledd heddwch rhwng ei gyd-ddynion oedd ei orhoffedd; ag, yn ystod ei fywyd, llawer o gaseion a wnaeth yn gyfeillion i'w gilydd. Dedwyddwch eraill a lonnai ei galon; ag annedwyddwch eraill a'i llenwai o drystyd. Dioddefodd gystudd hir yn amyneddgar, gan ddangos llwyr ymddarostyngiad i drefniadau doeth y nef. Gwelwyd ynddo yn ei gystudd brawf ychwanegol bod yr athrawiaeth Undodaidd yn rhoddi digon o gyfnerth i ddyn pan fyddo ei galon a'i gnawd yn pallu.

Claddwyd ef y Sul canlynol yn y Gellionnen, lle y buasai yn aelod zelog dros hir flynyddau; pan yr ymgynnullodd lliaws mawr i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref. Pregethodd y Parch. J. James ar yr achlysur, oddiwrth 1 Thes. iv. 14., bregeth a dynnai ddagrau o lawer llygad, ag nad â yn angof gan lluoedd ag oeddent yn bresennol.

"Yr Iesu a ddywedodd wrthi;—
Adgyfodir dy frawd drachefn."

Dan fad arweiniad yr Ion
Dygir y gwaredigion,
Fyrddiynau drwy barthau'r byd,
I lonfawr nefo. wynfyd;
I Ganaan y gogoniant,
D'od o nerth i nerth a wnant."

Glan Nedd. VIOINUS.

Nid oes dim yn fwy effeithiol i galedu y galon nag ymyraeth yn gellweirus gyda phethau crefyddol. Pan y mae yr holl grefydd yn y pwnc ac yn y ddadl, y mae y gydwybod un ai yn cysgu neu wedi ei serio.—*Bacon.*

Gofyniad.

Y Golygydd Mwys.—Yn llyfr y Dadguddiad; Pen, 21. adn. 7, Y mae geiriau o eiddo "Alpha ac Omega," fel hyn. "Yr hwn sydd yn gorchfygu a etifedda bob peth: ac mi a fyddaf iddo ef yn *Dduw*, ac yntau a fydd i i minau yn fab." A chan y creda yr *Undodiaid* [yn hytrach, *rhai* o honynt?] mai Iesu Grist oedd yr "Alpha ac Omega" hwnnw, ac nad oedd yr Iesu eilwaith onid *dyn*, gofynwyf iddynt, Gyda pha *briodoldeb y gallai* y cyfryw un ag nad oedd felly *onid* dyn,, roddi y fath addewid i ddyn arall (bydded yr arall hwnnw yn feddianedig o unrhyw gymeriad pa bynnag)—sef, "y byddai iddo ef yn *Dduw*?" Eglurhâd buan, trwy gyfrwng yr *Ymofynydd* genych chwi Syr, neu ryw rai o'ch Gohebwyr hyfedr, a fawr foddhâ laweroedd, gyda

Yr ciddoch mewn gobaith,

Ymofynydd Arall.

Llandudoch, Gorph. 11. 1851.

Barddoniaeth.

DYDD BARN.

"Dyddwaith, paham na'n diddawr?
Galwad i'r ymweliad mawr!" G.O.

Dydd mawr y Farn ofnadwy, sy'n neshau,
Dydd dwyn dirgelion dyn i'r golau clau;
Fy enaid ystyr, nid yw mhell, fe ddaw;
Gair Iôr y Nef, sy'n gwirio'i fod gerllaw;
Yr Udgorn mawr a gân, arswydus lef,
Dirgryna daear, sigla caerau Nef;
Y sain a dreiddia trwy'r bydysawd maith;
Y meirwon codant o'u gwelyau llaith.
Lle 'nawr yn sefyll y mae'r ddinas wen,
Lle hyd y nef y dyrcha'r tŵr ei ben,
Bydd erchyll garnedd, mysgi ymhob mân,
A llwch y meirwon yn derchafu i'r lân
I entrych awyr; natur faith a fydd
Mewn mawr gyffroad ar yr echrys ddydd.
Aelod at aelod nawr a ddaw ynghyd;
Asgwrn at asgwrn o bellafoedd byd;
A'r llygaid craff fu'n huno'n hir mewn gro
A ail-agorant ar arfarwol fro:
Y gwael, y gwych, y doeth, y cryf a'r gwan,
Yn gymysgedig lu a ddont i'r lân.
Y brenin mawr a'r caethddyn gwael ei wedd,
'Run lliw, 'r un llun, gyfodant o'r un bedd.
Mwy anfeiriol fydd y dyrfa fawr
Na ser y nef neu wlith y borau wawr.
Nol dod o'r meirwon oll o eigion llawr
Ni fydd ond dechreu y diwrnod mawr;
Y Barnwr myg a ddyrchaif idd ei sedd;
Gogoniant nefol yn ei ddysglaer wedd;
Ac ar ei ben bydd coron auraidd gain,
Y pen fu gynt yn gwisgo'r goron ddrain;
Pob llygad 'nawr a'i gwel trwy'r dirfawr lu;
Y cyfiawn doeth a'r gwael bechadur du;
Yr Iuddew digred a'i croeshoeliodd ef
A'i gwel yn eistedd ar orseddfaingc nef;
Yr *Atheist* dall a wadai'r Ior a'i gwnaeth
O'i flaen a saif mewn dychryn mawr ac aeth;
A'r *Deist* anghredgar er ei alar trist
A genfydd wiredd geiriau Iesu Grist.
Ei wir ganlynwyr gesyd e'n ddi-fraw
Mewn uchel fraint, fry ar ei ddeheu-law;
Ond yr annuwiol haid fe'u gyrir hwy
Draw ar yr aswy, nis diangant mwy.
I lawn amlygrwydd dygir eamwedd cudd,—
Tywyllwch nos dry'n ddysglaer oleu dydd.
Gorfoledd fydd i'r cyfiawn, gwae i'r dyn
Fu'n treulio'i oes â phechod dall ynglyn:
Pob gweithred dda, pob gweithred ddrwg,
pob bai,
Ar led cyhoeddir, fel ar benau tai:
Eglurir gwŷdau dirgel o bob rhyw
Yngolwg dynion ac angylion Duw:
Yr Ynad mawr o'i orsedd uchel syw
A rydd gyfiawnder i bob enaid byw:
Dadseinia hall ororau maith y nef
Pan wrth y seintiau mad y llefair ef,
"Dewch chwi fy mrodyr, anwyl blant fy
Nhad,
Dewch etifeddwch byth y dawel wlad
Ddarparwyd i chwi; dewch i'r hyfryd wledd
Na dderfydd byth o fewn trigfanau hedd:
Fe ddarfu teithio trwy'r anialwch blin,
Mewn gwir lawenydd yfwch nefawl win,—
Yn 'Nef y trigwch mwy, ar fryniau gwlad
Lle mae tawelwch i'w phreswylwyr mâd;
Gorphwyswch yma mewn diderfyn hoen,
Ar ardal ber lle nad oes cur na phoen,
Nac angau caeth, na rhuad gwynt a môr,
Ger wyneb siriol y trag'wyddol Iôr."

Reuben Brydydd y Coed.

Ceredigion.

I'R LLINELLAU UCHOD.

Er ei ddiwyd rwydd awen,—yn y llwch
Yn llechu mae Reuben;
Ond dwys lafur ei bur ben
Yw'r gemau sy mor gymen.

Mae mawredd ei ddelweddau,—yn arwydd
O'i orwych gynheddfau;
Ac am ei ddinam ddoniau,
Ei gaiff ef ei hir goffau.

D. T.

Ceredigion.

CAN I BLENTYN YMDDIFAD.

Tôn.—"*Yr Hen Amser Gynt.*"

Syr,—Mae'r gân a ganlyn at eich gwasanaeth os gwelwch ei bod yn gymmwys i gael ymddangos yn yr *Ymofynydd*. Barnwyd hi yn deilwng o wobr yn Eisteddfod Troed-y-rhyw, Mehefin 2. 1851. Hwnnw.

Ymddifad bach, heb dad na mam,
A wylai'r dagrau'n lli';
Yn ochr yr heol tost y cam,
Heb neb yn gwrando'i gri;
A'i gylla'n wag, Ow! druan tlawd,
A'i groen heb fawr dan gudd;
O'i goryn noeth hyd flaen ei fawd,
Yn wrthrych sylw prudd.

Gan wrando'i lais daeth un o draw,
Tosturiai' wel'd ei lun;
A rhoddes ddimai yn ei law,
Er fod e'n dlawd ei hun:
Gan ofyn b'le mae'th fam a'th dad,
O, blentyn, dywed im';
Ond methai gan deimladau mad,
Dros 'chydig ddwedyd dim.

Attebai, yn y bedd maent hwy,
'Rwyf finnau wrthyf 'f hun;
Nid oes a glyw fy nghwynion mwy,
Ond ambell, ambell un;
'Roedd im', tra'n fyw fy Mam a Nhad,
Gyfeillion lawer iawn:
A pherthynasau trwy'r holl wlad,
A rhai 'ny Drêf a gawn.

'Neu Tai cawn fwyd a'm galw'n mla'n,
Gan ddweud wyt Fachgen Tlws;
Pan elwyf nawr newidia'u cân,
Dangosant imi'r drws!
Gynt, tebygolent fi bob cam
I hwn a'r llall, ond heb
Ddim ond *boddloni Nhad a Mam*:—
'Dwy'n debyg nawr i neb.

Mewn ymffrost rhodiwn fro a bryn
A'm llaw, yn llaw fy Nhad;
A dillad newydd gawn pryd hyn,
O'r harddaf yn y Wlad;
Braint yw os câf hên garpiau 'nawr,
Rhag myn'd yn noeth i gŷd;
Ymddifad mewn cyfyngder mawr,
Wy'n ceisio byw'n y bŷd.

Ag megis alltud unig wyf,
Plant drwg a'm curant i;
A beunydd dan ryw glais neu glwyf,
Ond ofer yw fy nghri;
Pan rhag eu dial ceisiwyf ffoi,
Rwy'n aml yn colli'r gwaed:
Mewn drain a drysni'n gorfod rhoi,
I fynu—noeth yw'n nhraed.

Beth bynnag gynt a groesai'm grân,
Fy anwyl, anwyl Fam;
Yn barod oedd trwy ddwr a thân,
I roddi attaf lam;
Hi'm codai idd ei chynnes gôl,
A'm dagrau sychai hi:
Ond ofer disgwyl ddoe yn ôl,
Llwyr ddarfu arnaf fi.

O draw mi awn i gwrdd a Nhad,
A gwnawn gofleidio'i glûn;
A'm crêd nad oedd mewn Trêf na gwlad,
I'w gael ogyfuwch dyn:
Ond daeth yr angau ar ryw dro!
Fe aeth a'r ddau i ffwrdd;
Ond dwedodd Mam, mae yn fy ngho',
Y celem etto gwrdd.

Tra'n glâf nid oes a'm gwylia awr,
Fel gwnai fy Rhiaint glwys;
O'r dydd y rhoed hwy'n llwch y llawr,
Na rhoi im' gyngor dwys;
Gan dd'weyd os byddwn Fachgen da,
Y cawn le gwell i fyw:
Ond tra'n ymddifad 'does a wna,
Fy nangos; nac a'm clyw.

Oes Blentyn, sych dy ruddiau llaith,
Mae Tad it' etto'n fyw;
Yr hwn ni chwsg na heppian chwaith,
Efe sydd wrth y llyw;
Yr Unig Ddoeth Anfeidrol Dduw,
Penllywydd dae'r â Nef:
Llawn cariad, Tad ymddifaid yw,
Rho'th ymbwys arno ef.

O fysg cyfeillion drwg cais droi,
Arfera ddweud y gwir;
Fel hyn rhag maglau fyrdd gwnai ffoi,
A'th Dad a saif o'th dir;
Gan gofio'r gorchymynion oll,
Er chwerwed cai dy drin;
Fel hyn ynnilli rai o'u coll,
I weled gwerth dy rîn.

Os hyn a gedwi yn dy frŷd,
Safadwy fydd dy sail;
Pan fydd holl drawsion hyn o fŷd,
Yn crynu fel y dail;
A'th roesaw gai gan Grist ei hun,
I Wlad na theimlir clwy:
A lle cai gwrdd a'th Riaint cûn,
Heb ofn ymadael mwy.

Merthyr. Timothy Davies.

PEN-Y-BONT, ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.